

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
**Committee Room 4 – Tŷ Hywel** **Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor**  
Dyddiad: Dydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2020 **Kayleigh Imperato – Dipwrwy Glerc**  
Amser: 09.00 0300 200 6373  
[Deisebau@senedd.cymru](mailto:Deisebau@senedd.cymru)

---

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar [www.senedd.tv](http://www.senedd.tv)

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**  
(Tudalennau 1 – 46)
- 2 **Deisebau newydd**
  - 2.1 P-05-1029 Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno profion gorfodol ar yr holl deithwyr sy'n cyrraedd Maes Awyr Caerdydd  
(Tudalennau 47 – 50)
  - 2.2 P-05-1041 Polisi a chyllid clir ar gyfer ysbytai a chartrefi gofal ar gyfer ymweliadau rhithwir yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud  
(Tudalennau 51 – 62)
  - 2.3 P-05-1043 Sicrhau bod gweithgynhyrchu a chynhyrchu cyfarpar diogelu personol (PPE) digonol ar gyfer Cymru, yng Nghymru, ar ôl Covid-19  
(Tudalennau 63 – 71)
  - 2.4 P-05-1047 Gadewch i dafarndai a bariâu fasnachu, a chanslo'r cyrffwy  
(Tudalennau 72 – 82)
  - 2.5 P-05-1048 Dylid caniatáu i bobl hŷn gael mynediad i gyfleusterau chwaraeon awyr agored ar gyfer eu lles corfforol a meddyliol  
(Tudalennau 83 – 85)



- 2.6 P-05-1051 Caniatáu i athletwyr iau Cymru hyfforddi dan yr un rheoliadau Covid â'u cymheiriaid iau yn Lloegr  
(Tudalennau 86 – 88)
- 2.7 P-05-1053 Cadwch gampfeydd ar agor ac ystyriwch eu bod nhw mor bwysig â siopau, os cyflwynir cyfyngiadau symud cenedlaethol unwaith yn rhagor  
(Tudalennau 89 – 93)
- 2.8 P-05-1063 Dylid agor cyrsiau golff gan eu bod yn chwarae rôl hanfodol o ran gwella iechyd corfforol ac iechyd meddyliol  
(Tudalennau 94 – 96)
- 2.9 P-05-1057 Cynyddu nifer y bobl sy'n cael mynd i dderbyniadau priodas  
(Tudalennau 97 – 104)
- 2.10 P-05-1058 Atal ail gyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol yng Nghymru  
(Tudalennau 105 – 107)
- 2.11 P-05-1059 Dylid rhoi manau addoli mewn dosbarth hanfodol, er mwyn caniatáu i bobl fynd i eglwys yn ystod cyfnod o gyfyngiadau symud  
(Tudalennau 108 – 116)
- 2.12 P-05-1061 Rhowch gefnogaeth ariannol i fusnesau Lletya Anifeiliaid Anwes  
(Tudalennau 117 – 130)
- 2.13 P-05-1066 Caniatewch i gorwyr a chorau ieuenctid ganu yng Nghymru ac i gerddorion ifanc berfformio mewn grwpiau  
(Tudalennau 131 – 133)

## **Deisebau nad ydynt yn ymwneud â Covid-19**

- 2.14 P-05-1049 Newid i wyliau ysgol yr haf!  
(Tudalennau 134 – 140)

## **3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

### **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

3.1 P-05-954 Deiseb yn galw am ymchwiliad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru i gam-drin plant hanesyddol ar Ynys Byr

(Tudalennau 141 – 149)

## **Addysg**

3.2 P-05-932 Addysg ar alergeddau bwyd mewn ysgolion a hyfforddiant EPI-PEN gorfodol

(Tudalennau 150 – 159)

3.3 P-05-985 Darparu gofal plant i weithiwr allweddol sy'n cyfateb i'r hyn a oedd ar gael cyn pandemig Covid-19

(Tudalennau 160 – 163)

## **Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd**

3.4 P-05-1011 Gwersi rhithwir ar-lein dan arweiniad athrawon ar gyfer pob plentyn ysgol

(Tudalennau 164 – 165)

3.5 P-05-1015 Dylid categoreiddio ysgolion fel seilwaith hanfodol

(Tudalennau 166 – 170)

## **Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

3.6 P-05-1028 Llaciwch y cyfyngiadau gormodol i ganiatáu i raliau chwaraeon modur gael eu cynnal yng Nghymru

(Tudalennau 171 – 175)

## **Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

3.7 P-05-937 Dylid stopio berwi cramenogion yn fyw (cimychiaid, crancod, cimychiaid afon, corgimychiaid ac ati)

(Tudalennau 176 – 180)

3.8 P-05-1026 Deiseb i wahardd maglu bywyd gwyllt i'w defnyddio yn y fasnach ffwr

(Tudalennau 181 – 184)

## **Economi a Thrafnidiaeth**

3.9 P-05-886 Stopio'r Llwybr Coch (coridor yr A55/A494)

(Tudalennau 185 – 190)

## **Tai a Llywodraeth Leol**

3.10 P-05-1009 Gorchmynnwch Gyngorau Cymru i gymhwyso gordal o 100 y cant o leiaf i'r Dreth Gyngor ar ail gartrefi

(Tudalennau 191 – 193)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

### **P-05-1029 Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno profion gorfodol ar yr holl deithwyr sy'n cyrraedd Maes Awyr Caerdydd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Lawrence Evans, ar ôl casglu cyfanswm o 184 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Oherwydd y coronafeirws, mae'n ofynnol ar hyn o bryd i deithwyr fynd i gwarantîn wrth gyrraedd Maes Awyr Caerdydd o restr o wledydd Ewropeaidd a rhyngwladol.

Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r Maes Awyr i fynd allan o'r wlad ac i ddod i mewn iddi, at golli refeniw i gwmnïau hedfan sy'n cefnogi ein Maes Awyr cenedlaethol, a cholli refeniw i Faes Awyr Caerdydd Cyf, a diffyg hyder yn y diwydiant twristiaeth oherwydd bod angen i deithwyr fynd i gwarantîn ar ôl dychwelyd o wledydd penodol.

#### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Gweithredir Maes Awyr Caerdydd gan gwmni hyd braich o Lywodraeth Cymru, sydd wedi buddsoddi'n sylweddol yn y Maes Awyr a'i gyfleusterau / staff.

Os caniateir i sefyllfa bresennol cwarantîn gorfodol barhau bydd dirywiad trychinebus yn nifer y teithwyr yn arwain at golledion ariannol sylweddol i bawb dan sylw, sef, y Maes Awyr, y cwmnïau hedfan a'r teithwyr y mae'n rhaid iddynt, mewn llawer o achosion, benderfynu a ddylent roi'r gorau i'w cynlluniau teithio, y talwyd amdanynt eisoes, oherwydd y cyfyngiadau cwarantîn pan fyddant yn dychwelyd adref. Mae llawer o wledydd ledled y byd eisoes yn gweithredu'n llwyddiannus system profion dau gam ar deithwyr wrth iddynt gyrraedd eu tiriogaeth a phrofi eto bum niwrnod yn ddiweddarach. Dylid cyflwyno hyn ym Maes Awyr Caerdydd i dawelu meddwl y cyhoedd sy'n teithio y gall eu hediad / gwyliau fynd ymlaen heb ragor o ansicrwydd, pryder a cholli arian a dalwyd. Byddai hyn hefyd yn dod â

rhywfaint o sicrwydd unwaith yn rhagor i'r cwmnïau hedfan hynny sydd eisoes wedi buddsoddi ym Maes Awyr Caerdydd, a helpu i gadw eu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ogwr
- Gorllewin De Cymru

## **P-05-1029 Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno profion gorfodol ar yr holl deithwyr sy'n cyrraedd Maes Awyr Caerdydd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Lawrence Evans, ar ôl casglu cyfanswm o 184 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Oherwydd y coronafeirws, mae'n ofynnol ar hyn o bryd i deithwyr fynd i gwarantîn wrth gyrraedd Maes Awyr Caerdydd o restr o wledydd Ewropeaidd a rhyngwladol.

Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r Maes Awyr i fynd allan o'r wlad ac i ddod i mewn iddi, at golli refeniw i gwmnïau hedfan sy'n cefnogi ein Maes Awyr cenedlaethol, a cholli refeniw i Faes Awyr Caerdydd Cyf, a diffyg hyder yn y diwydiant twristiaeth oherwydd bod angen i deithwyr fynd i gwarantîn ar ôl dychwelyd o wledydd penodol.

### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Gweithredir Maes Awyr Caerdydd gan gwmni hyd braich o Lywodraeth Cymru, sydd wedi buddsoddi'n sylweddol yn y Maes Awyr a'i gyfleusterau / staff.

Os caniateir i sefyllfa bresennol cwarantîn gorfodol barhau bydd dirywiad trychinebus yn nifer y teithwyr yn arwain at golledion ariannol sylweddol i bawb dan sylw, sef, y Maes Awyr, y cwmnïau hedfan a'r teithwyr y mae'n rhaid iddynt, mewn llawer o achosion, benderfynu a ddylent roi'r gorau i'w cynlluniau teithio, y talwyd amdanynt eisoes, oherwydd y cyfyngiadau cwarantîn pan fyddant yn dychwelyd adref. Mae llawer o wledydd ledled y byd eisoes yn gweithredu'n llwyddiannus system profion dau gam ar deithwyr wrth iddynt gyrraedd eu tiriogaeth a phrofi eto bum niwrnod yn ddiweddarach. Dylid cyflwyno hyn ym Maes Awyr Caerdydd i dawelu meddwl y cyhoedd sy'n teithio y gall eu hediad / gwyliau fynd ymlaen heb ragor o ansicrwydd, pryder a cholli arian a dalwyd. Byddai hyn hefyd yn dod â

rhywfaint o sicrwydd unwaith yn rhagor i'r cwmnïau hedfan hynny sydd eisoes wedi buddsoddi ym Maes Awyr Caerdydd, a helpu i gadw eu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ogwr
- Gorllewin De Cymru

### **P-05-1041 Polisi a chyllid clir ar gyfer ysbytai a chartrefi gofal ar gyfer ymweliadau rhithwir yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Kate Perry, ar ôl casglu cyfanswm o 187 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Yn anffodus, dim yr unig rai oedd heb gyswllt ag anwyliaid mewn ysbytai a chartrefi gofal. Mae gan fy mam glefyd alzheimer ac ni all godi'r ffôn na defnyddio sgwrs fideo i gadw mewn cysylltiad. Yn ystod y cyfyngiadau symud gwreiddiol, welson ni ddim sut roedd yn edrch am 9 wythnos, ac roedd yn ofnadwy. Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigon clir ac nid oes gan bob lleoliad yr arian ar gyfer offer. Mae'n rhaid i hyn newid. Dylai fod cynllun clir ym mhob man, a'r gallu i gadw teuluoedd mewn cysylltiad.

#### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Er fy mod yn deall yr anghenion diogelwch o ran cadw pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel rhag covid, nid wyf yn deall y diffyg ystyriaeth o ran iechyd meddwl cyffredinol pobl. Rwyf yn adnabod llawer o bobl yn yr un sefyllfa gyda rhywun annwyl ac nid oes yr un ysbyty na chartref gofal yn gwneud yr un peth. Siawns y dylai cyfleusterau ac ysbytai gael cyllid ar gael a chanllawiau clir ar gadw teuluoedd mewn cysylltiad fel rhan o ofal cyfannol yr unigolyn hwnnw. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai pobl ag anableddau dysgu neu ddementia gael ymwelwyr os na fyddai gwneud hynny'n achosi gofid. Ceisiwch brofi bod diffyg cyswllt yn achosi pryder i rywun nad yw weithiau'n gwybod pwy ydych chi. Mae canllawiau'n nodi bod diwedd oes yn rheswm dros ymweliadau, ond pwy sy'n penderfynu ar ba adeg yn yr achos hwnnw y gallwch ymweld? pan nad yw'r person yn ymwybodol eich bod yno? Nid yw'n ddigon clir. Mae amser yn werthfawr ac mae angen arweiniad a chyllid clir arnom fel bod pobman yn dilyn yr un peth a bod teuluoedd yn gwybod bod gobaith o gadw mewn cysylltiad â'u hanwyliaid.

## **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Gorllewin De Cymru

# P-05-0141 Polisi a chyllid clir ar gyfer ysbytai a chartrefi gofal ar gyfer ymweliadau rhithwir yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud

Y Pwyllgor Deisebau | 1 Rhagfyr 2020  
Petitions Committee | 1 December 2020

Cyfeirnod: RS20/14409-2

## Cyflwyniad

**Rhif y ddeiseb:** [P-05-1041](#)

**Teitl y ddeiseb:** Polisi a chyllid clir ar gyfer ysbytai a chartrefi gofal ar gyfer ymweliadau rhithwir yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud

**Geiriad y ddeiseb:** Yn anffodus, dim yr unig rai oedd heb gyswllt ag anwyliaid mewn ysbytai a chartrefi gofal. Mae gan fy mam glefyd alzheimer ac ni all godi'r ffôn na defnyddio sgwrs fideo i gadw mewn cysylltiad. Yn ystod y cyfyngiadau symud gwreiddiol, welson ni ddim sut roedd yn edrch am 9 wythnos, ac roedd yn ofnadwy. Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigon clir ac nid oes gan bob lleoliad yr arian ar gyfer offer. Mae'n rhaid i hyn newid. Dylai fod cynllun clir ym mhob man, a'r gallu i gadw teuluoedd mewn cysylltiad.

Er fy mod yn deall yr anghenion diogelwch o ran cadw pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel rhag covid, nid wyf yn deall y diffyg ystyriaeth o ran iechyd meddwl cyffredinol pobl. Rwyf yn adnabod llawer o bobl yn yr un sefyllfa gyda rhywun annwyl ac nid oes yr un ysbyty na chartref gofal yn gwneud yr



un peth. Siawns y dylai cyfleusterau ac ysbytai gael cyllid ar gael a chanllawiau clir ar gadw teuluoedd mewn cysylltiad fel rhan o ofal cyfannol yr unigolyn hwnnw. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai pobl ag anableddau dysgu neu ddementia gael ymwelwyr os na fyddai gwneud hynny'n achosi gofid. Ceisiwch brofi bod diffyg cyswllt yn achosi pryder i rywun nad yw weithiau'n gwybod pwy ydych chi. Mae canllawiau'n nodi bod diwedd oes yn rheswm dros ymweliadau, ond pwy sy'n penderfynu ar ba adeg yn yr achos hwnnw y gallwch ymweld? pan nad yw'r person yn ymwybodol eich bod yno? Nid yw'n ddigon clir. Mae amser yn werthfawr ac mae angen arweiniad a chyllid clir arnom fel bod pobman yn dilyn yr un peth a bod teuluoedd yn gwybod bod gobaith o gadw mewn cysylltiad â'u hanwyliaid.

## Cefndir

### Ymweliadau â chartrefi gofal

Penderfynodd llawer o gartrefi gofal i atal ymwelwyr rhag dod i mewn ddiwedd mis Chwefror/dechrau mis Mawrth i geisio amddiffyn preswylwyr. Cyngor Llywodraeth Cymru oedd y dylid cyfyngu ar ymweliadau o 23 Mawrth, ond gwnaeth y mwyafrif hynny yn gynharach. Caniatawyd ymweliadau gan gadw pellter cymdeithasol ar rai adegau yn ystod y flwyddyn.

Ganol mis Mehefin/Gorffennaf, fe wnaeth rhai cartrefi gofal ddechrau caniatáu ymweliadau awyr agored â chyfyngiadau, a ddiwedd mis Awst, cafodd [canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cartrefi gofal](#) eu diweddaru i ganiatáu ar gyfer ymweliadau dan do â phellter cymdeithasol. Fodd bynnag, dywedodd y canllawiau hefyd, pe bai cyfraddau trosglwyddo'r coronafeirws yn codi yn y gymuned neu ar lefel genedlaethol, yna gallai ymweliadau ddod i ben.

Dyna ddigwyddodd ym mis Medi pan gafwyd cyfnodau clo lleol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, ac yna'r cyfnod atal byr cenedlaethol. Cafodd ymweliadau â chartrefi gofal eu hatal eto yn ystod y cyfnodau hyn o gyfyngiadau (ond caniatawyd ymweliadau diwedd oes mewn rhai amgylchiadau). Caniatawyd i ymweliadau ailgychwyn pan ddaeth y cyfnod atal byr i ben ar 9 Tachwedd. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddiweddaru [ei chanllawiau ar ymweld â chartrefi gofal](#) ar 10 Tachwedd. Fodd bynnag, mae'n dweud:

Gallai ymweliadau â chartrefi gofal ddod i ben os bydd cyfraddau trosglwyddo lleol yn y gymuned yn fwy na 5%. Gall ymweliadau â chartrefi gofal ddod i ben os bydd cyfraddau trosglwyddo COVID-19 yn codi ar lefel genedlaethol. Gellir gosod cyfyngiadau ar ymweliadau â chartrefi gofal mewn ardal benodol o'r awdurdod lleol, yn yr awdurdod lleol cyfan neu yn genedlaethol yn dibynnu ar y gyfradd drosglwyddo.

Yn ddiweddar, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn gweithio gyda phartneriaid ledled y DU i ddatblygu technolegau profi newydd, a'i bod yn gobeithio y bydd ganddi newyddion cadarnhaol yn fuan am brofion cyflym newydd a allai fod ar gael i ymwelwyr â chartrefi gofal. Mae Llywodraeth y DU newydd lansio cynllun peilot i aelodau o'r teulu gael profion rheolaidd ar gyfer ymweliadau mwy diogel â chartrefi gofal sy'n caniatáu cyswllt corfforol.

## Cyllid

Ar 14 Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £40 miliwn yn ychwanego! i gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion yn ystod pandemig y coronafeirws. Nododd mai diben y cyllid oedd helpu'r sector gyda chostau cynyddol ar gyfer pethau fel PPE, ond hefyd ar gyfer mwy o ddefnydd o TGCh i gadw teuluoedd mewn cysylltiad â'u hanwyliaid yn ystod cyfnodau lle nad oeddent yn cael ymweld â'i gilydd.

Ar 3 Awst, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £22.7m pellach i ganiatau i awdurdodau lleol barhau i gynorthwyo darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion gyda'r costau ychwanegol parhaus hyn. Roedd y cyllid hwn ar gael yn syth hyd at ddiwedd mis Medi, pan ddywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n adolygu'r sefyllfa eto.

Mae Cynllun Gweithredu Cartrefi Gofal Llywodraeth Cymru yn cynnwys cam gweithredu 'i sicrhau bod preswylwyr cartrefi gofal yn cael cymorth i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'u teulu'. Mae diweddariad Llywodraeth Cymru ar gynnydd y cynllun (a gyhoeddwyd ym mis Hydref) yn nodi:

Er mwyn helpu preswylwyr i gysylltu â'u hanwyliaid mewn ffyrdd eraill, gwnaethom ariannu Cymunedau Digidol Cymru i brynu a dosbarthu dros fil o ddyfeisiau digidol i gartrefi gofal ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd yn ystyried effeithiolrwydd prosiect Cymunedau Digidol Cymru ar gyfer cartrefi gofal pan fydd y gwerthusiad wedi'i gwblhau (y dyddiad targed ar gyfer hyn yw Rhagfyr 2020).

Mae gwefan prosiect Cymunedau Digidol Cymru yn dweud, diolch i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ei fod yn benthyca dyfeisiau tabled i gartrefi gofal, ac yn darparu hyfforddiant i staff cartrefi gofal fel y gallant helpu eu preswylwyr i ddefnyddio'r dyfeisiau tabled.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru newydd gyhoeddi (23 Tachwedd) bod 'podiau' dros dro yn cael eu darparu i gartrefi gofal er mwyn hwyluso ymweliadau yn well dros y gaeaf. Bydd y cynllun peilot gwerth £3 miliwn yn talu costau caffael, gosod a phrydlesu 100 o unedau, gyda 30 yn cael eu gosod i ddechrau ac yn barod i'w defnyddio cyn y Nadolig. Mae hyn hefyd yn cynnwys £1 miliwn ar gyfer cynlluniau i gefnogi darparwyr y mae'n well ganddynt wneud eu trefniadau tebyg eu hunain. Dywed Llywodraeth Cymru:

Bydd ehangu'r lle sydd ar gael mewn cartrefi gofal yn ei gwneud yn haws cynnal ymweliadau'n seiliedig ar asesiadau risg yn ystod misoedd y gaeaf, gan fod rhai darparwyr gofal wedi ei chael yn anodd trefnu ymweliadau gan nad oes digon o le dan do i allu cadw at y mesurau pellter cymdeithasol.

## Ymweld ag ysbytai

Mae ymweld ag ysbytai wedi'i gyfyngu yn yr un modd yn ystod y pandemig. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatganiad ysgrifenedig ar 17 Gorffennaf yn nodi:

Mae angen cytuno ar ymweliadau wyneb yn wyneb ymlaen llaw a gellir cynnig ymweliadau awyr agored os yw hynny'n briodol Dylid annog a chefnogi ymweliadau ar-lein lle bo hynny'n bosibl Mae'r canllawiau hyn yn cael eu hadolygu'n gyson a byddant yn newid wrth i statws y pandemig newid. Mae'r canllawiau ar gael yma:

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddiweddaru ei chanllawiau manwl ar ymweld ag ysbytai ar 6 Hydref. Maent yn nodi'r amodau lle caniateir ymweliadau ac yn datgan:

Rydym yn gwybod bod byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau wedi defnyddio ffyrdd arloesol i alluogi cleifion i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau.

Erbyn hyn gall cleifion/defnyddwyr gwasanaeth bellach gysylltu â'u hanwyliaid o bell drwy ddefnyddio ffonau symudol a thabledi mewn ffordd ddiogel.

Dylai ymweliadau rhithwir fel hyn barhau lle bo modd. Ond mae cysylltu trwy gerdyn, galwad ffôn, neges e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol yn werthfawr iawn hefyd, yn ogystal â galwadau fideo.

DS: Ni sonnir am gyllid penodol i fyrddau iechyd hwyluso ymweliadau rhithwir.

## Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb

Dyweddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

O ran helpu pobl i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'u teuluoedd, rwy'n ymwybodol bod hwn yn parhau i fod yn gyfnod anodd iawn i'r bobl hynny sy'n byw mewn cartrefi gofal a'u hanwyliaid, sydd wedi gorfod ymdopi â chyfyngiadau ar ymweld â'i gilydd yn ystod y pandemig. Pan fo cyfyngiadau ar ymweld wyneb yn wyneb, rydym yn disgwyl i ddarparwyr cartrefi gofal wneud pob ymdrech i helpu pobl i ddefnyddio dulliau eraill i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'u teuluoedd.

Dywed y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi cartrefi gofal yn yr ymdrech hon:

[...] drwy roi cyllid ychwanegol o dan raglen, sydd wedi ei chaffael, sef Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Lles, i brynu a dosbarthu dros 1000 o ddyfeisiau digidol (dyfeisiau llechen) i gartrefi gofal ar hyd a lled Cymru. Hefyd rhoddwyd hyfforddiant a chymorth i staff i'w helpu i ddefnyddio'r dyfeisiau hynny. Rwy'n deall y gallai rhai pobl, yn enwedig y rheini sydd â dementia, ei chael yn anodd dal ffôn yn eu llaw neu ddefnyddio llechen. Rydym wedi comisiynu gwerthusiad o'r cymorth ychwanegol hwn a ddarperir gan Cymunedau Digidol Cymru, a bydd y gwerthusiad hwnnw amlygu'r addasiadau rhesymol y gellid eu gwneud yn y maes hwn, megis defnyddio sgriniau mwy o faint, neu glustffonau, er enghraifft.

Mae'r Gweinidog yn mynd ymlaen i ddweud bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda grŵp o randdeiliaid sy'n cynrychioli'r sector ac yn parhau i adolygu ei dull gweithredu ar gyfer cynnal ymweliadau, ac "yn ymchwilio i sut y gallem roi mwy o gymorth i helpu darparwyr cartrefi gofal i ganiatáu ymweliadau mewn modd diogel". Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi bod "cefnogi llesiant preswylwyr cartrefi gofal yn un o'r chwe thema graidd yn ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Cartrefi Gofal".

O ran cyllid, cyfeiriodd y Gweinidog at y £40 miliwn, a £22.7 miliwn pellach sydd ar gael i awdurdodau lleol i'w galluogi i gynorthwyo cartrefi gofal ac eraill gyda'r costau ychwanegol sy'n deillio o'r pandemig. Dywedodd fod y costau hyn yn bennaf mewn meysydd fel rheoli heintiau a staffio ychwanegol, ond y gellid defnyddio cyllid hefyd i gynorthwyo cartrefi gofal i brynu TGCh i hwyluso cyswllt rhwng preswylwyr a'u teuluoedd lle nad oedd modd cynnal ymweliadau.

Aeth ymlaen i ddweud bod y £264 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar i awdurdodau lleol ar gyfer costau cysylltiedig â Covid-19 am weddill 2020-2021 yn cynnwys cyllid i awdurdodau lleol gynorthwyo darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion am y cyfnod hwnnw.

Nid yw ymateb y Gweinidog yn sôn am ymweld ag ysbytai (heblaw cyfeirio at deitl y ddeiseb).



Ein cyf/Our ref VG/07702/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

10 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 9 Hydref ynglŷn â Deiseb P-05-1041 Cyllid ar gyfer ysbytai a chartrefi gofal ar gyfer ymweliadau rhithwir yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud.

O ran cyllid yn gyffredinol, fel rhan o'r ymateb uniongyrchol i COVID-19, fe wnaethom neilltuo hyd at £40 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu helpu darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion i dalu'r costau ychwanegol a oedd yn codi o ddydd i ddydd. Roedd y cyllid hwn ar gael i awdurdodau drwy'r gronfa galedi i lywodraeth leol, i helpu cartrefi gofal ac eraill gyda'r costau ychwanegol sydd wedi codi yn sgil y pandemig. Roedd y costau hyn yn ymwneud â gwella dulliau o reoli heintiau a chyflogi rhagor o staff, ond roedd yn bosibl ei ddefnyddio hefyd i helpu cartrefi gofal i brynu offer TGCh ychwanegol er mwyn i breswylwyr a'u teuluoedd allu cysylltu â'i gilydd os nad oedd yn bosibl caniatáu ymweliadau wyneb yn wyneb. Yn wreiddiol, darparwyd y cyllid ar gyfer misoedd Ebrill a Mai, er inni wedyn ymestyn y cyfnod hwn i gynnwys mis Mehefin. Ers hynny, rydym wedi rhoi £22.7 miliwn yn rhagor i awdurdodau lleol, er mwyn iddynt barhau i helpu darparwyr gyda'r costau hyn dros gyfnod hirach, hyd at ddiwedd mis Medi.

Er i'r cymorth hanfodol hwn gael ei neilltuo ar gyfer y sector, mae llawer o ddarparwyr yn parhau i wynebu pwysau ariannol, a byddant yn parhau i wneud hynny am beth amser. O ganlyniad, mae'r £264 miliwn ychwanegol i awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd gennym i helpu gyda'r gost o ymateb i COVID-19 hyd at ddiwedd 2020-2021, yn cynnwys cyllid i alluogi awdurdodau lleol i gefnogi darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd y cyllid pellach hwn yn golygu bod awdurdodau lleol yn gallu cefnogi darparwyr gofal yn ystod y gaeaf ac wedyn, drwy eu helpu gyda'r gost ychwanegol o ddarparu gofal cymdeithasol yn ystod pandemig.

O ran helpu pobl i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'u teuluoedd, rwy'n ymwybodol bod hwn yn parhau i fod yn gyfnod anodd iawn i'r bobl hynny sy'n byw mewn cartrefi gofal a'u hanwyliaid, sydd wedi gorfod ymdopi â chyfyngiadau ar ymweld â'i gilydd yn ystod y pandemig. Pan fo cyfyngiadau ar ymweld wyneb yn wyneb, rydym yn disgwyl i ddarparwyr

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cartrefi gofal wneud pob ymdrech i helpu pobl i ddefnyddio dulliau eraill i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'u teuluoedd.

Rwy'n ymwybodol o'r dulliau ystyriol a chreadigol y mae llawer o staff cartrefi gofal wedi eu defnyddio i helpu pobl i deimlo eu bod yn parhau mewn cysylltiad yn ystod y cyfnod hwn, megis drwy rannu lluniau, cardiau, negeseuon a chylchlythyrau. Mae rhai wedi mynd ati i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a galwadau fideo i alluogi pobl a'u teuluoedd i gymryd rhan mewn cwisiau a gweithgareddau eraill.

Rydym wedi cefnogi ymdrechion cartrefi gofal drwy roi cyllid ychwanegol o dan raglen, sydd wedi ei chaffael, sef *Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Lles*, i brynu a dosbarthu dros 1000 o ddyfeisiau digidol (dyfeisiau llechen) i gartrefi gofal ar hyd a lled Cymru. Hefyd rhoddwyd hyfforddiant a chymorth i staff i'w helpu i ddefnyddio'r dyfeisiau hynny. Rwy'n deall y gallai rhai pobl, yn enwedig y rheini sydd â dementia, ei chael yn anodd dal ffôn yn eu llaw neu ddefnyddio llechen. Rydym wedi comisiynu gwerthusiad o'r cymorth ychwanegol hwn a ddarperir gan *Cymunedau Digidol Cymru*, a bydd y gwerthusiad hwnnw amlygu'r addasiadau rhesymol y gellid eu gwneud yn y maes hwn, megis defnyddio sgriniau mwy o faint, neu glustffonau, er enghraifft.

Rydym yn parhau i weithio gyda grŵp o randdeiliaid sy'n cynrychioli'r sector, ac rydym yn parhau i adolygu ein dull gweithredu ar gyfer cynnal ymweliadau. Yn benodol, rydym yn ymchwilio i sut y gallem roi mwy o gymorth i helpu darparwyr cartrefi gofal i ganiatáu ymweliadau mewn modd diogel.

Mae cefnogi llesiant preswylwyr cartrefi gofal yn un o'r chwe thema graidd yn ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Cartrefi Gofal. Fel rhan o'r cynllun hwn, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid allweddol i siarad yn uniongyrchol â phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, gan holi am eu profiadau yn ystod y pandemig, a beth fyddai'r ffordd orau o'u cefnogi yn ystod y gaeaf. Cafodd Datganiad Ysgrifenedig, a oedd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cartrefi Gofal, ei gyhoeddi ar 7 Hydref:

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cynllun-gweithredu-ar-gyfer-cartrefi-gofal-diweddariad>

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

**P-05-1041 A clear policy and funding for hospitals and care homes for virtual visiting during times of lockdown, Correspondence – Petitioner to Committee, 20.11.20**

Further to your letter I write with my response I wish to be considered as part of the petition committee discussion.

I feel the main issue surrounding this is the lack of clarity with any guidance provided by WAG.

There should be clear guidance specific to keeping people in care homes and hospitals in touch with their families not included as if an after thought with other guidance such as infection control.

This i feel is confirmed by the comment that extra funding provided was predominantly for infection control but could be used for purchasing digital equipment.

Were those receiving the funding made absolutely clear of this point? Is it fair to make them choose between using funding for infection control or other areas during a pandemic? particularly as they could be then criticised for such action if there are then infection control issues.

keeping families intouch should have its own guidance and funding to show it is held with the same importance to other areas of need.

There are sadly many distressing accounts of families who have not seen loved ones in any way for months and then they have sadly passed away, this is horrendous and I would question if human rights have been taken into account and also the severe impact on peoples mental health.

In our case we had no contact in any way or form for 9 weeks initially, as you can imagine knowing dementia is a progressive disease this was very distressing to then see the severe decline in mums presentation.

having the care home action plan is excellent, however again it is not clear robust guidance and statements such as " ensure residents well being" could be interpreted in different ways.

whilst the digital funding is excellent given that there are 23000 care home spaces in Wales around 1000 items is nowhere near enough to have a significant impact.

In mum and many other peoples cases with dementia they are placed in mental health hospital settings so all of the suggested funding would not be available to them either, I have had this clarified when enquiring regarding the digital funding.

There is no clear guidance that even mentions people in such circumstances and the WAG hospital visiting guidance is again unclear and open to interpretation, something we have personally experienced depending on what member of staff we speak to.

whilst the action plan is much appreciated families have been in these circumstances since March, the prioritisation of producing this doesn't appear to have been seen until many months later.

In many areas of the world the elderly are held in very high regard, people matter and should be treated with the dignity they deserve please let's show the world that Wales do the same. Time is precious and for many families like ours it is slipping away.

### **P-05-1043 Sicrhau bod gweithgynhyrchu a chynhyrchu cyfarpar diogelu personol (PPE) digonol ar gyfer Cymru, yng Nghymru, ar ôl Covid-19**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Teresa Mary Carberry, ar ôl casglu cyfanswm o 127 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae'r Argyfwng Corona presennol wedi tynnu sylw at ba mor annigonol yw'r mynediad at gyfarpar diogelu personol angenrheidiol i bawb sydd ei angen, a hynny ym mha bynnag leoliad iechyd neu ofal cymdeithasol y maent yn gweithio. Fel cenedl mae angen i ni ddod yn hunangynhaliol a pheidio â gorfod dibynnu ar gwmnïau tramor ac ati. Byddai hyn hefyd yn gofyn am arfarniad o ran storio, ailgyflenwi a dosbarthu'r eitemau dan sylw, ac yn darparu cyflogaeth i lawer o bobl.

Fel Mam i nyrs mewn Uned Gofal Dwys, rwy'n byw mewn ofn bob dydd am ei diogelwch. Ac nid fi yw'r unig riant sy'n poeni.

#### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae sesiynau briffio newyddion dyddiol wedi tynnu sylw at ddiffyg trallodus o gyfarpar diogelu personol i'n gweithwyr hanfodol ym mhob lleoliad, ac mae hyn yn achosi straen gormodol, ac mewn rhai achosion mae'n arwain at haint anochel a lledaeniad y feirws. Mae cael rhwystr corfforol rhwng y rhai sydd â'r feirws a'r rhai sy'n gofalu amdanynt yn bwysig, ac mae'n diogelu gweithwyr rheng flaen. Mae'n ddyletswydd ac yn gyfrifoldeb ar bob un ohonom i sicrhau bod hyn yn bosibl. Byddai cynhyrchu cyfarpar diogelu personol yng Nghymru at ddefnydd pawb y mae'n ofynnol iddynt eu cael, beth bynnag yw lefel yr angen, yn gwarantu argaeledd, yn lleihau'r ôl troed carbon (dim hediadau mewnfario ac ati) ac yn rhoi ymdeimlad o ddiogelwch mawr ei angen i'r cyhoedd. Yn ogystal, byddai'n arwain at fod llawer o bobl yn dod o hyd i gyflogaeth newydd, fel peirianwyr, gweithwyr warws, staff rheoli ansawdd a gweithwyr ym maes logisteg, i enwi dim ond ychydig.

Mae llawer o bobl wedi ymateb i'r her ar hyn o bryd, ac maen nhw'n defnyddio'u sgiliau gwnïo yn dda. Er mor gymeradwy yw hyn, byddai gymaint yn well pe na baent wedi gorfod gwneud hynny.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Delyn
- Gogledd Cymru

# Gweithgynhychu a chynhychu Cyfarpar Diogelu Personol

Y Pwyllgor Deisebau | 1 Rhagfyr 2020  
Petitions Committee | 1 December 2020

Cyfeirnod: RS20/14409-4

Rhif y ddeiseb: P-05-1043

**Teitl y ddeiseb:** Sicrhau bod gweithgynhychu a chynhychu cyfarpar diogelu personol (PPE) digonol ar gyfer Cymru, yng Nghymru, ar ôl Covid-19. \*\* \*\*

**Geiriad y ddeiseb:** Mae'r Argyfwng Corona presennol wedi tynnu sylw at ba mor annigonol yw'r mynediad at gyfarpar diogelu personol angenrheidiol i bawb sydd ei angen, a hynny ym mha bynnag leoliad iechyd neu ofal cymdeithasol y maent yn gweithio. Fel cenedl mae angen i ni ddod yn hunangynhaliol a pheidio â gorfod dibynnu ar gwmnïau tramor ac ati. Byddai hyn hefyd yn gofyn am arfarniad o ran storio, ailgyflenwi a dosbarthu'r eitemau dan sylw, ac yn darparu cyflogaeth i lawer o bobl. Fel Mam i nyrs mewn Uned Gofal Dwys, rwy'n byw mewn ofn bob dydd am ei diogelwch. Ac nid fi yw'r unig riant sy'n poeni.



## 1. Cefndir

Nod Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yw helpu i ddiogelu unigolyn rhag risgiau iechyd neu ddiogelwch yn y gwaith ac atal haint rhag lledaenu. Mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, mae cyfarpar diogelu personol yn cynnwys ystod eang o eitemau, gan gynnwys cyfarpar diogelu ar gyfer y llygaid a'r wyneb, menig, ffedogau a gynau, a chyfarpar diogelu anadlol, fel masgiau neu amddiffynwyr wyneb. Defnyddir gwahanol fathau o gyfarpar diogelu personol, yn ôl lefel y risg, y lleoliad neu'r hyn sy'n cael ei wneud.

Yng Nghymru, [Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru](#) (NWSSP), yn gweithio gyda'r Storffeydd Cyfarpar ar y Cyd sy'n gwasanaethu awdurdodau lleol, sy'n cydgysylltu'r gwaith o ddsbarthu cyfarpar diogelu personol.

Gan ol mis Mawrth, cytunoedd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gynnal [ymchwiliad](#) i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Pwyllgor ei [adroddiad](#) cyntaf, a ganolbwyntiodd ar nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys PPE.

Mae Adran 3 yr adroddiad yn trafod PPE ac yn darparu gwybodaeth ynglŷn â chyflenwi ac argaeledd PPE yn ystod ton gyntaf y pandemig a hefyd ynglŷn â chaffael a gweithgynhyrchu PPE.

Yn ystod ton gyntaf pandemig Covid-19, roddwyd cryn sylw i'r ffaith bod pryder yn y DU ac yng ngweddill y byd ynghylch sicrhau cyflenwadau digonol a chyson o PPE.

Ym mis Mai 2020, nododd Llywodraeth Cymru mewn [canllawiau](#) ar ei wefan ei bod yn gweithio'n agos gyda busnesau a'r diwydiant i sicrhau bod cyflenwadau o cyfarpar hanfodol, gan gynnwys cynhyrchion glanhau a PPE, yn cyrraedd gweithwyr rheng flaen a oedd yn wynebu prinder yn ystod brigiad yr achosion o Covid-19. Gofynnwyd i'r rhai a oedd eisoes yn gyflenwyr PPE neu gyfarpar hanfodol, neu a oedd yn gallu rhoi cymorth ychwanegol o ran gweithgynhyrchu, addasu cynhyrchion, neu arloesi, i [gysylltu â'r Hwb Gwyddorau Bywyd](#).

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor dyddiedig 4 Tachwedd 2020, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi datblygu cynllun strategol ar gyfer caffael PPE hyd at fis Mawrth 2021, er mwyn sicrhau bod y sefyllfa yn ddiogel drwy'r gaeaf.

Mae mwyafrif llethol yr eitemau PPE a ddarparwyd i'r sectorau iechyd a gofal yng Nghymru wedi cael eu cyrchu'n uniongyrchol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, drwy lwybrau caffael cenedlaethol a rhyngwladol. Mae cynllun caffael y gaeaf yn tybio'r angen am hunangynhaliath wrth gyrchu PPE i Gymru, yn hytrach na dibynnu ar gyflenwadau Llywodraeth y DU. Serch hynny, mae'r Gweinidog yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda gwledydd eraill y DU, gan nodi cyfleoedd i gyfuno hymdrechion caffael er mwyn cael gafael ar gyflenwadau newydd hanfodol a sicrhau bod y PPE a brynir yn cynnig gwerth gwell am arian. Mae protocol ar gyfer caffael PPE wedi cael ei ddatblygu ar gyfer y DU gyfan i gefnogi hynny.

Mae'r Gweinidog yn tynnu sylw at y ffaith bod cynhyrchu PPE yn ddomestig yn sbardun pwysig ar gyfer yr economi sylfaen yng Nghymru, a bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda ei phartneriaid ym maes diwydiant i ategu'r gwaith o gynhyrchu cyflenwadau PPE drwy arloesi a manteisio ar lwybrau gweithgynhyrchu newydd. Hefyd, dywedodd y Gweinidog fod ymateb cadarnhaol iawn i alwad y Prif Weinidog ar ddiwydiant Cymru i fynd ati i helpu i gynhyrchu cyflenwadau ychwanegol o PPE i'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol ar ddechrau'r pandemig, a chanlyniad hynny oedd bod masgiau, gorchuddion wyneb, feisorau, ffedogau sgryps, a hylif diheintio dwylo yn cael eu cynhyrchu'n lleol.

Mae'r Gweinidog yn gweld bod gan fusnesau Cymru rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o gryfhau cydnerthedd Llywodraeth Cymru yn wyneb cynnydd yn niferoedd yr achosion o Covid-19, ac unrhyw oblygiadau sy'n deillio o Brexit heb gytundeb. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod mwy o PPE yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru, ac mae ei chynllun caffael PPE yn cyfuno gweithgynhyrchu lleol â'r hyn a gyflenwir yn rhyngwladol.

Mae nifer o weithgynhyrchwyr yng Nghymru eisoes yn cynhyrchu masgiau wyneb sy'n bodloni'r gofynion diogelwch uchel iawn ar gyfer PPE o safon feddygol, gydag eraill yn cynhyrchu gorchuddion wyneb untro, neu orchuddion wyneb y gellir eu

hailddefnyddio, ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol. Mae hyn yn ychwanegol at sianeli cynhyrchu lleol sy'n gwneud ffedogau, sgryps, a gynau, sydd wedi cael eu datblygu ers dechrau'r pandemig gyda chymorth Diwydiant Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Gweinidog yn nodi y bydd **Diwydiant Cymru** a'i bartneriaid yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o lywio trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgysylltu â busnesau ynglŷn â gofynion PPE yn y dyfodol, yn ogystal ag ymchwilio i'r potensial i allu bodloni mwy o'r gofynion caffael yng Nghymru.

### 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Fel y soniwyd uchod, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon **adroddiad** ym mis Gorffennaf 2020 ar ganfyddiadau ei ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae argymhelliad 1 yn yr adroddiad yn ymwneud â sicrhau PPE, ei gasglu ynghyd a'i ddosbarthu, ac mae argymhelliad 2 yn nodi:

**Argymhelliad 2:** Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei systemau ei hun i sicrhau bod y mecanweithiau ar waith i alluogi gweithgynhyrchwyr yng Nghymru i ymateb yn gyflym wrth gyflenwi cyfarpar diogelu personol priodol pe bai unrhyw achosion yn y dyfodol. Rhaid i hyn gynnwys cael trefniadau caffael sy'n gallu ymateb yn amserol.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad hwn yn darparu gwybodaeth debyg i'r hyn a ddarparwyd yng ngohebiaeth y Gweinidog â'r Pwyllgor dyddiedig 4 Tachwedd 2020 y cyfeirir ati uchod.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r briffiau hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref VG/07701/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau

4 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 9 Hydref ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â gweithgynhyrchu a chynhyrchu cyfarpar diogelu personol (PPE) digonol yn lleol yng Nghymru.

Rydym wedi sicrhau bod ein cyflenwad o PPE yn sefydlog er mwyn inni allu bodloni anghenion ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Ers dechrau mis Mawrth, rydym wedi dosbarthu dros 398 miliwn o eitemau PPE i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Cafodd dros 196 miliwn o'r eitemau hyn eu cyflenwi i'w defnyddio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol. Mae 252 miliwn o eitemau yn dal mewn stoc, gydag archebion wedi eu gosod i gael dros 322 miliwn o eitemau yn rhagor.

Oherwydd cryfder cymharol sefyllfa GIG Cymru o ran stoc a'r gallu i gyflenwi, ers dechrau'r pandemig rydym hefyd wedi bod yn helpu gwledydd eraill y DU drwy anfon dros 14 miliwn o eitemau PPE drwy gymorth cydfuddiannol.

Er mwyn sicrhau bod y sefyllfa yn ddiogel drwy'r gaeaf, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi datblygu cynllun strategol ar gyfer caffael PPE hyd at fis Mawrth 2021. Fel y nodir yn y cynllun hwn, bydd cyflenwadau o gynhyrchion hanfodol yn cael eu cadw i sicrhau cydnherthedd a hunangynhaliadaeth o ran ein cyflenwadau i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, drwy gydol y gaeaf hwn hyd at fis Mawrth 2021. Hefyd bydd y cyflenwad o PPE yn cael ei gynyddu i gyflenwad o 24 o wythnosau erbyn diwedd mis Tachwedd 2020.

Er mwyn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau i gyflenwi'r PPE priodol i leoliadau gofal cymdeithasol drwy gydol cyfnod y pandemig, bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn parhau i gaffael PPE a'i ddosbarthu i awdurdodau lleol er mwyn bodloni anghenion y sector gofal cymdeithasol am weddill y flwyddyn ariannol hon. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi cael ei gytuno rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a CLILC er mwyn ffurfioli'r trefniadau presennol ar gyfer darparu PPE i'r sector gofal cymdeithasol hyd at fis Mawrth 2021.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal â'i gyflenwi i'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol, mae PPE wedi cael ei gyflenwi i feddygon teulu, optometryddion, canolfannau deintyddol brys, a fferyllfeydd. Mae manyleb gwasanaeth safonol wedi cael ei gytuno ar gyfer pob gwasanaeth contractiwr gofal sylfaenol, gyda chynllun i ymestyn y pecynnau PPE safonol a gyflenwir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gontractwyr deintyddiaeth ac optometreg ar hyn o bryd, i gynnwys pecynnau pwrpasol yn ystod y misoedd nesaf.

Mae mwyafrif llethol yr eitemau PPE a ddarparwyd i'r sectorau iechyd a gofal yng Nghymru wedi cael eu cyrchu'n uniongyrchol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, drwy lwybrau caffael cenedlaethol a rhyngwladol. Mae Cynllun Caffael y gaeaf yn tybio'r angen am hunangynhaliaeth wrth gyrchu PPE i Gymru, yn hytrach na dibynnu ar gyflenwadau Llywodraeth y DU. Serch hynny, rydym yn parhau i weithio gyda gwledydd eraill y DU, gan nodi cyfleoedd i gyfuno ein hymdrechion caffael er mwyn cael gafael ar gyflenwadau newydd hanfodol a sicrhau bod y PPE a brynir yn cynnig gwerth gwell am arian. Mae protocol ar gyfer caffael PPE wedi cael ei ddatblygu ar gyfer y DU gyfan i gefnogi hynny.

Mae cynhyrchu PPE gartref yn sbardun pwysig ar gyfer yr economi sylfaen yng Nghymru, ac rydym yn gweithio gyda'n partneriaid mewn diwydiant i ategu'r gwaith o gynhyrchu cyflenwadau PPE drwy arloesi a manteisio ar lwybrau gweithgynhyrchu newydd. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn ar ôl i'r Prif Weinidog alw ar ddiwydiant Cymru i fynd ati i helpu i gynhyrchu cyflenwadau ychwanegol o PPE i'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol ar ddechrau'r pandemig, a chanlyniad hynny oedd bod masgiau, gorchuddion wyneb, feisorau, ffedogau sgrys, a hylif diheintio dwylo yn cael eu cynhyrchu'n lleol.

Mae gan fusnesau Cymru rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o gryfhau ein cydnerthedd yn wyneb rhagor o'r cynnydd sydyn mewn achosion o COVID-19 a fydd yn digwydd o bryd i'w gilydd, a'r risgiau a fydd yn codi os ydym yn ymadael â'r EU heb gytundeb. Mae'r pandemig wedi amlygu'r ffaith bod y gadwyn gyflenwi fyd-eang yn gallu bod yn fregus, a'n nod yw sicrhau bod mwy o PPE yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru. Mae ein cynllun caffael PPE yn cyfuno gweithgynhyrchu lleol â'r hyn a gyflenwir yn rhyngwladol. Mae nifer o weithgynhyrchwyr yng Nghymru eisoes yn cynhyrchu masgiau wyneb sy'n bodloni'r gofynion diogelwch uchel iawn ar gyfer PPE o safon feddygol, gydag eraill yn cynhyrchu gorchuddion wyneb untro, neu orchuddion wyneb y gellir eu hailddefnyddio, ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol. Mae hyn yn ychwanegol at sianeli cynhyrchu lleol sy'n gwneud ffedogau, sgrys, a gynau, sydd wedi cael eu datblygu ers dechrau'r pandemig gyda chymorth Diwydiant Cymru a Llywodraeth Cymru.

Bydd Diwydiant Cymru a'i bartneriaid yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o lywio ein trefniadau ar gyfer ymgysylltu â busnesau ynglŷn â gofynion PPE yn y dyfodol, yn ogystal ag ymchwilio i'r potensial inni allu bodloni mwy o'n gofynion caffael ein hunain.

Gan obeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

**P-05-1043 To have the manufacture and production of sufficient PPE for Wales located in Wales Post Covid-19, Correspondence – Petitioner to Committee, 23.11.20**

To the Petitions Committee

Thank you all for the time you have allocated to both process and read my petition to date. At the time of writing it, I was more than a little concerned by the apparent lack of sufficient PPE for frontline medical staff, such as my daughter. The reply to the Chair of your Committee, from Vaughan Gething has done much to alleviate my concern and anxiety. It clearly indicates that the situation with regard to PPE in Wales, is being well managed and is readily available to those who need it, in order to complete their work in safety.

I hope that this situation continues and that as a Nation Wales will always have sufficient PPE for its needs and be self sustainable.

Kind regards,

## Eitem 2.4

**P-05-1047 Gadewch i dafarndai a bariau fasnachu, a chanslo'r cyrffyw**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Adam Smith, ar ôl casglu cyfanswm o 750 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae trwyddedeion bariau a thafarndai yn dilyn gweithdrefnau llym er mwyn masnachu, ac i wneud yn siŵr bod staff a chwsmeriaid yn cael eu diogelu ar bob adeg.

Gyda mesurau cadw pellter cymdeithasol ychwanegol ar waith, mae trwyddedeion ledled y wlad wedi dangos eu bod yn gallu gwneud hynny gan barhau i fasnachu, cadw eu lleoliadau ar agor a sicrhau swyddi.

### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Yn ôl dogfennau SAGE, mae arbenigwyr wedi wfftio'r syniad o gyrffyw am ddeg o'r gloch yr hwyr ar gyfer tafarndai, bariau a bwytai cyn iddo gael ei roi ar waith ledled Lloegr.

[www.independent.co.uk/news/health/coronavirus-3-tier-lockdown-new-restrictions-boris-johnson-sage-curfew-b1012869.html%3Famp](http://www.independent.co.uk/news/health/coronavirus-3-tier-lockdown-new-restrictions-boris-johnson-sage-curfew-b1012869.html%3Famp)

Mae'r Prif Weinidog ei hun wedi dweud nad oes unrhyw beth sy'n profi bod cysylltiad rhwng cynnydd mewn achosion â bariau, tafarndai a bwytai.

Mae'r Prif Weinidog, Mark Drakeford yn honni bod tystiolaeth yn ardal Heddlu Gwent yn dangos nad yw'r nifer cynyddol o achosion yn cael eu hachosi gan dafarndai a bwytai.

<https://www.walesonline.co.uk/whats-on/food-drink-news/newport-lockdown-gwent-pubs-hospitality-19078374>

Yn ôl lleoliadau, bu gostyngiad o 93% ers mis Awst, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Gydag ychydig iawn o gefnogaeth ar gael, ac yn wyneb ansicrwydd, mae hyn yn achosi mwy o bryder a straen i berchnogion o fewn y sector lletygarwch.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganslo'r cyrffyw 10pm, gadael i leoliadau fasnachu yn unol â'u trwyddedau ac achub ein heconomi gyda'r nos.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Dwyrain Casnewydd
- Dwyrain De Cymru

# P-05-1047 Gadewch i dafarndai a bariau fasnachu, a chanslo'r cyrffyw

Y Pwyllgor Deisebau | 1 Rhagfyr 2020  
Petitions Committee | 1 December 2020

Cyfeirnod: RS20/14570-2

Rhif y ddeiseb: P-05-1047

Teitl y ddeiseb: Gadewch i dafarndai a bariau fasnachu, a chanslo'r cyrffyw

## Geiriad y ddeiseb:

Mae dalwyr trwyddedau bariau a thafarndai yn dilyn gweithdrefnau llym er mwyn masnachu, a sicrhau bod staff a chwsmeriaid yn cael eu diogelu bob amser.

Gyda mesurau cadw pellter cymdeithasol ychwanegol ar waith, mae dalwyr trwyddedau ledled y wlad wedi dangos eu bod yn gallu gwneud hynny gan barhau i fasnachu, cadw eu lleoliadau ar agor a sicrhau swyddi.

Mae dogfennau Sage yn dangos bod arbenigwyr wedi diystyru'r syniad o gyrffyw o 10.00 pm ar gyfer tafarndai, bariau a bwytai cyn iddo gael ei weithredu ledled Lloegr.

<http://www.independent.co.uk/news/health/coronavirus-3-tier-lockdown-new-restrictions-boris-johnson-sage-curfew-b1012869.html%3Famp>



Mae'r Prif Weinidog ei hun wedi dweud nad oes prawf sy'n cysylltu'r cynnydd mewn achosion â bariau, tafarndai a bwytai. Mae'r Prif Weinidog, Mark Drakeford wedi honni bod tystiolaeth yn ardal Heddlu Gwent yn dangos nad yw'r nifer cynyddol o achosion yn cael eu hachosi gan dafarndai a bwytai.

<https://www.walesonline.co.uk/whats-on/food-drink-news/newport-lockdown-gwent-pubs-hospitality-19078374>

Yn ôl lleoliadau, bu gostyngiad o hyd at 93 y cant ers mis Awst, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cydag ychydig iawn o gefnogaeth ar gael, ac yn wyneb ansicrwydd, mae hyn yn peri mwy o bryder a straen i berchnogion o fewn y sector lletygarwch.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganslo'r cyrffyw 10.00 pm, gadael i leoliadau fasnachu yn unol â'u trwyddedau ac achub ein heconomi gyda'r nos.

## 1. Cefndir

Ar 22 Medi 2020, [cyhoeddodd Llywodraeth Cymru](#) y byddai'n ofynnol i fusnesau lletygarwch yng Nghymru gau o 10.00 pm er mwyn helpu i fynd i'r afael â phandemig y coronafeirws. Cyflwynwyd y cyrffyw 10.00 pm, a ddaeth i rym ar 24 Medi, yn Lloegr a'r Alban ar yr un pryd hefyd.

Eglurodd Llywodraeth Cymru fod y cyrffyw 10.00 pm yn berthnasol i werthu alcohol, gyda safleoedd yn gorfod cau erbyn 10:20 pm yng Nghymru, gan roi amser i gwsmeriaid orffen unrhyw fwyd/diodydd. Mae hyn ychydig yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr lle mae'n rhaid i'r leoliad gau am 10.00 pm.

Yn ystod y [cyfnod atal byr](#), roedd yn ofynnol i fusnesau lletygarwch fel tafarndai a bariau gau rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd, ac eithrio gwasanaethau prydau parod a danfon.

Yn dilyn y cyfnod atal byr, [ers 9 Tachwedd](#), mae busnesau lletygarwch wedi gallu ailagor. Unwaith eto, bu'n ofynnol iddynt roi'r gorau i werthu alcohol am 10.00 pm, a bydd angen i bob lleoliad sydd wedi'i drwyddedu i werthu alcohol i'w yfed

ar y safle gau erbyn 10.20 pm. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru uchafswm hefyd ar faint grwpiau, gan eu cyfyngu i 4 o bobl (heb gynnwys plant o dan 11 oed) oni bai eu bod o'r un aelwyd. Mae gofynion hefyd megis archebu ymlaen llaw, gwasanaeth wrth y bwrdd yn unig, a rheoli mynediad i leoliadau.

## Cyrff cyngori

Mae'r deisebwyr yn cyfeirio at ddogfennau a gyhoeddwyd gan Grŵp Cyngori Gwyddonol Llywodraeth y DU ar Argyfyngau (SAGE).

Er mai [SAGE sy'n gyfrifol](#) am sicrhau bod "cyngor gwyddonol amserol a chydgyssylltiedig ar gael i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gefnogi penderfyniadau traws-lywodraethol y DU", mae gan Lywodraeth Cymru ei chorff ei hun hefyd - sef [Y Gell Cyngor Technegol](#). Mae dau gyd-gadeirydd y Gell yn aelodau o SAGE. Mae'r [Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio erthygl blog](#) sy'n cynnwys mwy o wybodaeth am bob corff.

## Cyngor yn ymwneud â cyrffyw

Yn ei gyfarfod ar 21 Medi, trafododd SAGE bapur ar [effeithiolrwydd a niwed gwahanol ymyriadau nad ydynt yn rhai fferyllol](#)' (PDF,232KB). Mae gwefan Llywodraeth y DU yn ei gwneud yn glir mai'r papur yw'r asesiad o'r dystiolaeth ar adeg ei ysgrifennu.

Mae'r papur yn trafod effaith amrywiaeth o ymyriadau nad ydynt yn rhai fferyllol ar drosglwyddo Covid-19, ar ffactorau cymdeithasol ac economaidd eraill ac yn ystyried unrhyw faterion gweithredu sy'n ymwneud â'r ymyriad. Un ymyriad sydd wedi'i gynnwys yn y papur yw cau bariau a thafarndai. Wrth ystyried yr effaith ar drosglwyddo Covid-19, mae'r papur yn nodi mai effaith fach y mae cyrffyw yn debogol o'i chael.

[Mae'r Gell yn cyhoeddi crynodebau rheolaidd](#) o'r cyngor y mae'n ei roi i Lywodraeth Cymru. Er nad yw'n sôn am cyrffyw'n benodol, mae'r [crynodeb o'r cyngor a ddarparwyd ar 18 Medi](#) - yn dweud:

Efallai y bydd angen pecyn o ymyriadau nad ydynt yn rhai fferyllol ar raddfa leol a chenedlaethol ... Mae ymyriadau'n amrywio o ran eu heffeithiolrwydd o ran lleihau trosglwyddiad ac mae ganddynt wahanol fathau a lefelau o niwed yn gysylltiedig â hwy. Mae'n gynyddol bwysig i ystyried y niwed anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Mae Grŵp Cynghori Technegol Llywodraeth Cymru, yn cynnwys arbenigwyr technegol a gwyddonol o bob rhan o Lywodraeth Cymru, GIG Cymru a'r byd academaidd, a chyhoeddodd ei gyngor i Weinidogion [ar gyfnod atal byr](#) ar 19 Hydref. Mae hwn yn datgan:

Y tu allan i'r aelwyd, mae dadansoddiad rhagarweiniol o astudiaeth rheoli achosion ddiweddar gan PHE yn awgrymu bod gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn ffactor risg, fel y mae gweithio mewn gwasanaethau personol agos a lletygarwch. Ymhlith y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â risg gynyddol ymhlith achosion mae mynychu lleoliadau adloniant ee bariau a bwytai. Cofnodwyd brigiadau o achosion sy'n gysylltiedig â bwytai a bariau hefyd, yn y DU ac mewn mannau eraill

Wrth adolygu'r cynigion ar ôl y cyfnod atal byr ar 3 Tachwedd, [dywedodd y](#) Prif Swyddog Meddygol mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer y diwydiant lletygarwch:

..., er y bydd gweithgarwch economaidd yn dychwelyd ar ryw lefel, mae'n anochel y bydd ail-agor y diwydiant lletygarwch yng Nghymru yn arwain at gynnydd yn nhrosglwyddiad y feirws. Bydd caniatáu 4 unigolyn yn unig i ddod ynghyd yn y lleoliadau hyn, ynghyd â'r gofynion eraill ar y sector yn helpu i liniaru hyn, ac hefyd caniatáu pobl i gymysgu'n gymdeithasol mewn lleoliadau a reoleiddir.

## Ymateb

Mewn ymateb i'r cyhoeddiad cyrffyw, [cyhoeddodd Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain \(BBPA\) ddatganiad](#) y byddai'n difetha'r sector tafarndai heb gymorth ariannol ychwanegol gan y Llywodraeth.

Wrth roi [tystiolaeth i Bwyllgor Trysorlys Tŷ'r Cyffredin](#) (PDF,312KB), dywedodd Prif Swyddog Gweithredol UKHospitality:

...other European countries...have introduced a curfew [on alcohol sales]...it has been a later curfew: it has been 11 o'clock with a 12 o'clock closure or midnight with a 1 o'clock closure.

Tynnwyd sylw hefyd at y gwahaniaeth yn y dull gweithredu rhwng Cymru a Lloegr yn ystod y sesiwn dystiolaeth. Fel yr amlinellwyd yn gynharach, yng Nghymru mae'n rhaid rhoi'r gorau i werthu alcohol am 10.00 pm ond gall lleoliadau aros ar agor am ychydig yn hirach. Yn Lloegr, rhaid i lleoliadau gau am 10.00 pm, a

chafwyd [adroddiadau newyddion am nifer fawr o bobl yn ymgynnull ar y strydoedd yn lle hynny.](#)

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn ei lythyr at y Cadeirydd dyddiedig 30 Hydref 2020, dywed y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth:

Datblygwyd y mesurau lletygarwch – gan gynnwys y cyrffyw alcohol 10.00 pm a chau safleoedd trwyddedig am 10.20 pm – yn unol â chyngor iechyd y cyhoedd ac ar ôl ymgynghori â'r diwydiant lletygarwch (gan gynnwys Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain)

Mae'r Dirprwy Weinidog hefyd yn cyfeirio at y cyngor y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael gan y Gell Cyngor Technegol, a amlinellwyd yn gynharach yn y papur briffio hwn. Dywed y Dirprwy Weinidog fod tystiolaeth y Gell yn cefnogi'r farn bod yfed alcohol yn dal i fod yn ffactor risg mawr o ran lledaeniad clefydau heintus a bod y gwaharddiad 10.00 pm ar werthu alcohol wedi'i gyflwyno i leihau'r risgiau hyn.

Mae'r llythyr hefyd yn cyfeirio at bobl nad ydynt yn cadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol ac:

... er nad yw hyn o reidrwydd o ganlyniad i fusnesau lletygarwch yn peidio â rhoi mesurau addas ar waith [mae] yn ymwneud mwy ag ymddygiad pobl a rhyngweithio yn y lleoliadau hyn ac o'u cwmpas.

Mae hefyd yn awgrymu ers cyflwyno oriau agor amser cyfyngedig, bod tystiolaeth o ostyngiad yn nifer y cysylltiadau a nodwyd gan unigolion sydd wedi profi'n gadarnhaol.

Yn ystod sesiwn friffio coronafeirws Llywodraeth Cymru ar 9 Tachwedd, [ni wnaeth y Prif Weinidog sylw](#) penodol ynghylch a oedd y cyrffyw 10.00 pm wedi bod yn effeithiol.

Mae llythyr y Dirprwy Weinidog hefyd yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael i fusnesau. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio [erthygl blog yn amlinellu gwahanol gynlluniau cymorth busnes Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru](#) sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.

### 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ar 7 Hydref 2020, clywodd Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Senedd **dystiolaeth** gan sectorau o'r economi y mae'r pandemig wedi effeithio'n ddifrifol arnynt. Dywedodd UKHospitality Cymru:

...one of the first things that could be done is a review of the 10 o'clock provision that's across all licensed premises at the moment. We feel it's an arbitrary deadline, but also what we're getting reports of, and it's not only anecdotal evidence but also from our discussions with Government, is that people are doing gatherings that are not under the licensing guidance and not under our professionalism, if you like, in looking after people when they're enjoying hospitality. It would make much more sense to give an extended time when they're in safe environments that are being properly looked after by professionals, rather than leaving them to their own devices to try to find other places.

Ar 5 Tachwedd 2020, clywodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu **dystiolaeth ar effaith Covid-19 ar gerddoriaeth fyw**. Clywodd y Pwyllgor gan Brif Weithredwr clwb nos yng Nghaerdydd, Caerdydd Clwb Ifor Bach, er ei fod yn gallu ailagor fel tafarn yn ystod mis Awst:

... unwaith ddaeth y cyrffyw 10 o'r gloch i mewn, roedd yn ariannol anhyfyw i ni gario ymlaen, gyda 70 y cant o'n hincwm yn dod mewn ar ôl 10 o'r gloch.

Yn ystod y sesiwn, dywedodd tystion hefyd wrth y Pwyllgor mai eu barn yw ei bod yn fwy diogel i bobl barhau i yfed alcohol ar ôl 10.00 pm mewn safleoedd trwyddedig, lle'r oedd mesurau tracio ac olrhain a chadw pellter cymdeithasol ar waith, na pharhau i yfed yng nghartrefi pobl.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r briffiau hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-1047  
Ein cyf/Our ref DET/02930/20

Janet Finch-Saunders AS  
Aelod o'r Senedd  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau  
Ty Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

20 Hydref 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar ran y Pwyllgor Deisebiadau. Rwy'n gweld eich bod wedi amgáu Deiseb gan Adam Smith ynghylch y cyrffw ar werthu alcohol ar safleoedd trwyddedig yng Nghymru. Rwy'n ateb gan gy mod yn arwain ar faterion lletygarwch.

Cafodd y mesurau lletygarwch – gan gynnwys y cyrffw alcohol o 10pm a chau safleoedd trwyddedig am 10.20pm – eu datblygu yn unol â chyngor iechyd cyhoeddus ac wedi ymgynghori â'r diwydiant lletygarwch (gan gynnwys y British Beer & Pub Association). Mae'r mesurau'n seiliedig ar y mesurau cadw pellter cymdeithasol y dylem eu cymryd, sydd yno i leihau y cysylltiad cymdeithasol rhwng pobl er mwyn lleihau trosglwyddiad y coronafeirws.

Mae y Gell Cyngor Technegol yn cydlynnu cyngor gwyddonol a thechnegol i gefnogi y rhai hynny sy'n gwneud penderfyniadau yn ystod argyfyngau megis y pandemig Coronafeirws presennol ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru a lechyd Cyhoeddus Cymru yn cael gwybod ar fyrder am yr wybodaeth wyddonol a thechnegol ddiweddaraf sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws, sy'n cael eu cyhoeddi yma bob wythnos:

<https://llyw.cymru/y-gell-cyngor-technegol-crynodeb-or-cyngor-16-hydref-2020>

Rydym yn cydnabod ymdrechion mwyafriaf y busnesau lletygarwch ledled Cymru i gynnal amgylcheddau diogel ar gyfer eu cwsmeriaid, fodd bynnag mae tystiolaeth y Gell Cyngor Technegol yn cefnogi'r farn bod yfed alcohol yn parhau i fod yn elfen o risg mawr gyda lledaeniad clefydau heintus. Mae effaith yfed alcohol – yn enwedig yfed gormod o alcohol –

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 80**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn golygu bod pobl yn cymeryd mwy o risgiau. Gall hefyd ei wneud yn anoddach i bobl gofio ble y maent wedi bod a gyda phwy y maent wedi bod mewn cysylltiad agos â hwy os yw timau olrhain cyswllt yn eu holi pe byddai rhywun yn profi'n bositif. Caiff hyn ei gefnogi gan bryderon gan awdurdodau lleol a'r heddlu wrth iddynt weld bod pellter cymdeithasol gan grwpiau o bobl yn diflannu wedi cyfnodau estynedig o yfed alcohol ac o fewn grwpiau o bobl yn ymweld â sawl lleoliad. Mae'r gwaharddiad 10pm ar werthu alcohol wedi ei gyflwyno i leihau'r risgiau hyn.

Pan nad yw pobl yn cadw pellter cymdeithasol mae'r risg o gael eich heintio â COVID-10 yn codi. Nid yw hyn o angenrheidrwydd o ganlyniad i fusnesau lletygarwch yn peidio â gosod mesurau addas, ond mae'n fwy cysylltiedig ag ymddygiad pobl a'r rhyngweithio o fewn y lleoliadau hyn. Er nad oes modd diffinio un lleoliad arbennig, mae angen cymryd mesurau mewn lleoliadau ble y mae rhyngweithio cymdeithasol yn parhau am 15 munud neu fwy. Ers cyfyngu ar oriau agor, mae tystiolaeth o leihad yn nifer y cysylltiadau sydd gan unigolion sydd wedi profi yn bositif. Byddwn yn parhau i gasglu tystiolaeth ar gyfraniad posibl lleoliadau lletygarwch o ran lledaeniad Covid-19.

Rwy'n ymwybodol iawn o'r heriau enfawr y mae'r sector lletygarwch yn eu hwynebu o ganlyniad i'r mesurau sy'n cael eu cymryd i warchod iechyd y cyhoedd ac achub bywydau. Er ein bod yn gwybod bod mwyafrif y busnesau yn gweithio'n galed i gydymffurfio, mae achosion a chlystyrau wedi eu cysylltu â lleoliadau lletygarwch, ac mae awdurdodau lleol wedi cymryd camau gorfodi yn erbyn tafarndai a bwytai ble y maent wedi nodi achosion o dorri'r rheoliadau – ac mae hyn yn cynnwys, mewn rhai achosion, hysbysiadau cau. Rydym wedi ymrwymo i wneud popeth y gallwn i gefnogi'r sector yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn ac yn diolch iddynt am y ffordd y maent wedi ymateb hyd yma. O'n rhan ni, rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i edrych ar atebion newydd ac arloesol o ran cyllid fydd yn helpu'r sector Twristiaeth a Lletygarwch i symud ymlaen. Er bod y cynlluniau cenedlaethol digynsail a ddarparwyd drwy Lywodraeth y DU wedi bod yn gymorth hanfodol yn ystod y cyfnod hwn, mae gallu Llywodraeth Cymru i gynnig cymorth ariannol ychwanegol wedi caniatáu i fusnesau o Gymru elwa ar lefel llawer uwch o gymharu â rhanbarthau eraill y DU.

Nifer y busnesau sy'n elwa o gymorth gan y Llywodraeth, sy'n cynnwys cynlluniau y DU a Llywodraeth Cymru, oedd 14% yn Lloegr a 34% yng Nghymru.

Yn y cyfamser, bydd £60 miliwn ychwanegol yn cael ei neilltuo i gefnogi busnesau y mae'r cyfyngiadau cloi lleol wedi cael effaith ar eu busnes. Mae'r [Gwiriwr Cymhwysedd](#), er mwyn i gwmnïau wybod a oes modd iddynt dderbyn cyllid o drydydd cam y Gronfa Cadernid Economaidd bellach ar agor, a bydd y Cyllid ar gael ar 26 Hydref.

Ar gyfer busnesau y mae'r cyfnod atal yn effeithio arnynt, bydd cronfa £300 miliwn newydd yn agor yr wythnos nesaf (yr wythnos sy'n dechrau 26 Hydref) i'w cefnogi. Bydd pob busnes o fewn y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach yn derbyn taliad o £1,000. Bydd lleoliadau manwerthu bach a chanolig a busnesau hamdden a lletygarwch sy'n gorfod cau, yn derbyn un taliad o hyd at £5,000. Bydd grantiau ychwanegol dewisol hefyd a chymorth i fusnesau llai sy'n ei chael yn anodd ymdopi.

Bydd y gronfa £80 miliwn a gyhoeddwyd yr wythnos ddiwethaf i helpu busnesau i ddatblygu yn yr hirdymor, yn cael ei gynyddu o £100 miliwn, sy'n cynnwys £20 miliwn wedi ei glustnodi ar gyfer twristiaeth a lletygarwch.

Bydd busnesau hefyd yn gallu defnyddio y cymorth sydd ar gael drwy'r Cynllun Cadw Swyddi presennol neu'r Cynllun Cymorth Swyddi newydd estynedig.

Fel y gwyddoch, cafodd **cyfnod atal** byr, cyflym, ei gyflwyno ledled Cymru o **6pm, ddydd Gwener 23 Hydref**, tan ddechrau **dydd Llun 9 Tachwedd 2020**, i helpu i ad-ennill rheolaeth o'r coronafeirws. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn rhaid i rai busnesau a lleoliadau, gan gynnwys bariau, bwytai a rhan fwyaf y siopau gau. Gweler y canllawiau Cwestiynau Cyffredin ar: <https://llyw.cymru/cyfnod-atal-y-coronafeirws-cwestiynau-cyffredin>

Wedi diwedd y cyfnod atal, bydd cyfres newydd o reolau cenedlaethol yn cael eu cyflwyno, fydd yn cynnwys sut y gall bobl gyfarfod a sut y bydd y sector cyhoeddus a busnesau yn gweithredu, gan gynnwys y sector lletygarwch a lleoliadau.

Bydd fy swyddogion yn parhau i gysylltu â'r sector drwy'r grŵp rhanddeiliaid lletygarwch, ac rydym yn ceisio gwneud popeth y gallwn i gefnogi'r sector a chadw pawb yn ddiogel.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

### **P-05-1048 Dylid caniatáu i bobl hŷn gael mynediad i gyfleusterau chwaraeon awyr agored ar gyfer eu lles corfforol a meddyliol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Colin Edmunds, ar ôl casglu cyfanswm o 1,743 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae aelodau hŷn o'r gymdeithas yn aml wedi colli partner ac mae ganddynt gylch o ffrindiau yn eu clybiau priodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn clybiau golff. Efallai bod y clwb y tu allan i'r ardal sydd o dan glo, weithiau dim ond taith byr y tu hwnt i'r ffin. Mae eleni wedi bod yn anodd i bawb ond mae wedi bod yn arbennig o anodd i'r grŵp oedran hwn, wrth i'r pandemig effeithio ar eu hiechyd corfforol a chael effaith ddifrifol ar eu hiechyd meddwl hefyd.

#### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dweud na ddylid gwahaniaethu yn erbyn pobl oherwydd eu hoedran. Mae achosion o wahaniaethu sy'n groes i'r Ddeddf Cydraddoldeb yn anghyfreithlon.

Mae newidiadau diweddar gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i bobl ifanc deithio allan o ardal sydd dan glo i glwb chwaraeon personol.

Mae'r weithred hon yn gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn y mae angen iddyn nhw hefyd ddefnyddio'r fath gyfleusterau.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Gorllewin De Cymru



Ein cyf/Our ref DET/02851/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor  
Deisebau

16 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch am y cyfle i fynegi sylwadau ar Ddeiseb P-05-1048 cyn i'r Pwyllgor Deisebau ei hystyried yn ffurfiol.

Mae dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â phandemig Covid-19 wedi bod yn ofalus ac yn seiliedig ar y cyngor diweddaraf gan SAGE a Sefydliad Iechyd y Byd, a bydd y dull hwn o weithredu yn parhau.

Cyflwynwyd y cyfyngiadau lleol a'r cyfnodau atal byr cenedlaethol a oedd yn para pythefnos i achub bywydau ac atal y GIG rhag cael ei llethu. Mae achosion o'r coronafeirws wedi bod yn codi'n sydyn yng Nghymru wrth i ni fynd i'r gaeaf. Er bod y mesurau cenedlaethol a lleol a roddwyd ar waith ledled Cymru wedi helpu i gadw golwg ar y lledaeniad hwnnw, roedd consensws cynyddol bod angen cymryd camau ychwanegol. Bu'n rhaid ystyried effaith gronol yr holl gamau y gallem eu cymryd. Effaith gyfunol nifer o weithgareddau sy'n gwneud y gwahaniaeth, nid y risg a achosir gan unrhyw un gweithgaredd.

Mae hyn yn gofyn am ymdrech genedlaethol, sy'n golygu cyfaddawdau ac ymrwymiad gan bob un ohonom. Mae gwasanaethau a oedd yn hanfodol i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn ystod y cyfnod atal byr wedi aros ar agor. Nid ystyriwyd bod cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn hanfodol ar hyn o bryd, gan ei bod yn dal yn bosibl ymarfer corff mewn manau cyhoeddus yn yr awyr agored yn ystod y cyfnod atal byr.

Er ein bod yn gwerthfawrogi'r effaith y mae'r cyfyngiadau tymor byr hyn yn ei chael ar y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, nod y dull gofalus yr ydym wedi'i gymryd wrth gyflwyno'r mesurau hyn yw diogelu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o'r feirws, gan gynnwys pobl oedrannus. Mae gennym dystiolaeth wyddonol gadarn hefyd fod y risgiau'n is i blant, sydd wedi rhoi rhywfaint o hyblygrwydd inni o ran cadw rhai gweithgareddau plant wedi'u trefnu i redeg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 84**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar ôl diwedd y cyfnod atal byr cenedlaethol, cyflwynwyd set newydd o reolau cenedlaethol, sy'n ymdrin â sut y gall pobl gyfarfod a sut mae'r sector cyhoeddus a busnesau'n gweithredu. Mae rhagor o fanylion am y rheolau newydd yn dilyn y cyfnod atal byr wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar ar wefan Llywodraeth Cymru a gellir eu gweld drwy'r ddolen isod.

<https://llyw.cymru/rheoliadau-coronafeirws-canllawiau>

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Elis-Thomas'.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

## Eitem 2.6

### **P-05-1051 Caniatáu i athletwyr iau Cymru hyfforddi dan yr un rheoliadau Covid â'u cymheiriaid iau yn Lloegr**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Andrew Brown, ar ôl casglu cyfanswm o 219 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Bydd fy meibion yn chwarae pêl-fasged eleni yng nghynghrair genedlaethol Lloegr sy'n dechrau ym mis Tachwedd.

Mae athletwyr iau Lloegr eisoes yn chwarae gemau ymarfer er mwyn hyfforddi ond nid yw plant Cymru yn gallu rhannu pêl hyd yn oed wrth hyfforddi.

Mae hyn yn gosod athletwyr iau Cymru dan anfantais fawr o gymharu â rhai Lloegr.

Mae hyn yn digwydd yn yr holl chwaraeon iau, gan gynnwys pêl-rwyd, rygbi a phêl foli.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ein rheoliadau yn cyfateb i'r rhai ar gyfer athletwyr iau Lloegr i'w wneud yn gyfartal i'r plant.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru



Ein cyf/Our ref DET/02849/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor  
Deisebau

16 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch am y cyfle i roi sylwadau ar Ddeiseb P-05-1051 cyn iddi gael ei hystyried yn ffurfiol gan y Pwyllgor Deisebau.

Mae dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â phandemig COVID-19 wedi bod yn ofalus ac yn seiliedig ar y cyngor diweddaraf gan SAGE a Sefydliad Iechyd y Byd, a byddwn yn parhau i weithredu yn y ffordd hon.

Er mwyn caniatáu i chwaraeon a gweithgareddau corfforol ailddechrau mewn modd diogel, sefydlodd Chwaraeon Cymru a Chymdeithas Chwaraeon Cymru nifer o grwpiau cynllunio ar ein cais ni. Gofynnwyd i'r grwpiau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr amrediad o weithgareddau chwaraeon gan gynnwys Pêl-fasged Cymru, ystyried heriau mwy penodol o amgylch y themâu canlynol:

- Chwaraeon elït a phroffesiynol;
- Chwaraeon awyr agored;
- Chwaraeon dan do;
- Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden.

Diben pob grŵp yw datblygu ffordd o ailddechrau'n raddol ac ystyried cyfleoedd y gellir eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o bob adolygiad o'r rheoliadau. Mae'r grwpiau wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu canllawiau ar gyfer ailddechrau chwaraeon yn raddol. Mae Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol, gan gynnwys Pêl-fasged Cymru, hefyd wedi llunio canllawiau clir ar y camau y mae angen eu cymryd er mwyn i'w chwaraeon unigol ailddechrau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r rheoliadau sydd mewn grym yng Nghymru ar hyn o bryd yn caniatáu i weithgareddau wedi'u trefnu barhau. Mae hyn yn cynnwys amrediad eang o weithgareddau sy'n cael eu rhedeg gan fusnes, corff cyhoeddus neu sefydliad elusennol, clwb, neu gorff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer chwaraeon neu weithgareddau arall. Gallai hyn gynnwys amrediad o weithgareddau chwaraeon, cerddoriaeth a hamdden i bobl ifanc. Mae hefyd yn cynnwys gweithgareddau a ddarperir y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol, megis clybiau neu ddsbarthiadau ar ôl ysgol. Nid yw'r rhain yn rhan o addysg ffurfiol plentyn, er bod ganddynt fanteision ehangach i ddatblygiad a llesiant plant.

Yn dilyn diwedd y cyfnod clo byr cenedlaethol, mae set newydd o reolau cenedlaethol wedi cael eu cyflwyno, sy'n ymdrin â sut y gall pobl gwrdd a sut mae'r sector cyhoeddus a busnesau'n gweithredu. Mae rhagor o fanylion am y rheolau newydd yn dilyn y cyfnod clo byr wedi cael eu cyhoeddi'n ddiweddar ar wefan Llywodraeth Cymru a gellir eu gweld yn y ddolen isod.

<https://llyw.cymru/rheoliadau-coronafeirws-canllawiau>

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

**P-05-1053 Cadwch campfeydd ar agor ac ystyriwch eu bod nhw mor bwysig â siopau, os cyflwynir cyfyngiadau symud cenedlaethol unwaith yn rhagor**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Michelle Adams, ar ôl casglu cyfanswm o 20,616 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Pe bai'n rhaid i Lywodraeth Cymru osod cyfyngiadau symud cenedlaethol unwaith eto, dylid ystyried bod campfeydd yr un mor bwysig â siopau er mwyn diogelu iechyd y genedl. Maent yn llawer llai o berygl o ran trosglwyddiad Covid-19 na bwytaï a thafarndai.

### **Gwybodaeth Ychwanegol**

<https://www.ukactive.com/news/fitness-and-leisure-sector-reports-covid-rate-of-0-34-per-100000-visits-since-reopening-in-england/>

– Arweiniodd 22,000,000 (22 miliwn) o ymweliadau â champfeydd at ddim ond 78 o achosion o Covid

– Campfeydd y DU yn dangos dim ond 0.35 o achosion fesul 100,000 o ymweliadau

<https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-derbyshire-54464470>

Mae campfeydd yn dal i ddangos dim ond 1.7 y cant o achosion, ond maent am ein cau a chadw bwytaï, sydd â chyfradd uwch, sef 9.6 y cant o achosion, yn agored.

Mae hunanladdiad dynion bellach ar gyfradd uwch nag erioed o'r blaen

<https://www.bmj.com/content/370/bmj.m3431>

Dengys data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod y gyfradd hunanladdiad ymhlith dynion a bechgyn yn 2019, sef 16.9 marwolaeth ym mhob 100,000, sef y gyfradd uchaf ers 2000 ac ychydig yn uwch na chyfradd 2018 sef 16.2 ym mhob 100,000 o farwolaethau. Y gyfradd hunanladdiad ymhlith menywod a genethod oedd 5.3 marwolaeth ym mhob 100,000 yn 2019, sef cynnydd o 5.0 ym mhob 100,000 o gymharu â 2018 a'r gyfradd uchaf ers 2004.

Gweler y linc a ganlyn:

<https://academic.oup.com/qjmed/article/113/10/707/5857612> sy'n trafod hunanladdiad, iechyd meddwl a Covid.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ynys Môn
- Gogledd Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-1053  
Ein cyf/Our ref DET/02863/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor  
Deisebau

16 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch am y cyfle i gynnig sylwadau am Ddeiseb P-05-1053 cyn ystyriaeth ffurfiol y Pwyllgor Deisebiadau.

Mae dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â'r pandemig Covid-19 wedi bod, a bydd yn parhau i fod, yn ofalus ac yn seiliedig ar y cyngor diweddaraf gan SAGE a Sefydliad Iechyd y Byd.

Cafodd cyfyngiadau lleol a'r cyfnod atal cenedlaethol dros bythefnos eu cyflwyno i arbed bywydau ac i sicrhau y gall y GIG ymdopi. Bu achosion o'r coronafeirws yn cynyddu'n gyflym yng Nghymru wrth i'r feirws ddeffro ar gyfer y gaeaf. Er bod y mesurau cenedlaethol a lleol a drefnwyd ledled Cymru wedi helpu i gadw rheolaeth ar ledaeniad yr haint, roedd consensws cynyddol bod angen rhagor o weithredu. Bu'n rhaid ystyried effaith gronol y camau y byddwn yn eu cymryd. Effaith gyfun gweithredu niferus sy'n gwneud y gwahaniaeth, yn hytrach na risg un gweithgarwch.

Mae hyn yn galw am ymdrech genedlaethol, sy'n golygu cyfaddawdu ac ymrwymiad gan bawb. Roedd y gwasanaethau a oedd yn hanfodol i warchod iechyd y cyhoedd yn ystod y cyfyngiadau symud byr wedi aros ar agor. Nid oedd cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn cael eu hystyried yn hanfodol ar yr adeg hynny, ac roedd yn parhau yn bosibl i ymarfer yn yr awyr agored yn ystod y cyfnod atal byr.

Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer cyfnodau atal pellach. Pe byddai angen fodd bynnag, byddai ein dull gweithredu wrth ystyried y camau sydd eu hangen i reoli lledaeniad y feirws yn cael ei benderfynu gan yr amgylchiadau ar y pryd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Amlinellodd y Prif Weinidog y mesurau cenedlaethol newydd yn dilyn y cyfnod atal cenedlaethol, gan gadarnhau y gallai campfeydd a chyfleusterau hamdden ail-agor o'r 9 Tachwedd 2020. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y ddolen isod.

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-covid-19-mesurau-cenedlaethol-newydd-i-gymru>

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Elis-Thomas'.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

**P-05-1053 Keep gyms open and consider them as important as shops should another national lockdown take place, Correspondence – Petitioner to Committee, 24.11.20**

Dear Sir/Madam

Thank you for the opportunity to respond to the Welsh Government's response to my petition.

As is evident from the large number of signatures the petition has received, the issue of gyms being allowed to remain open in case of a further extended lockdown, or even another short 'fire-break' lockdown, is important to a large number of people across Wales. From gym owners and personal trainers, to athletes and people like me, who rely on access to fitness classes in order to keep themselves physically and mentally healthy, this petition demonstrates how vital keeping these facilities open is.

I would hope that the Welsh Government would have easy access to far more statistics than I, to show that the risk of transmission of Covid19 is far lower in gyms than at first feared, and in fact, is much lower than many other business types, that were permitted to re-open earlier following the national lockdown at the beginning of the year. While naming gyms specifically as being allowed to reopen on November 9th was a positive sign that the Welsh Government was acknowledging the lower risk of these environments, what I (and many others) would like to see is that a real, concerted effort will be made to class gyms as essential and keep them open should any further lockdowns be needed, especially should they be able to prove that they can reach certain safety criteria that would allow this, for example, ventilation and adequate space to maintain social distancing.

Following the update to the English tier system yesterday, with gyms being removed from the list of businesses having to close, at all tier levels, I hope that the Welsh Government will consider this a sign that the UK parliament also agree that the benefits to the physical and mental well-being of gym users outweighs the low risk of possible Covid transmission in well maintained, Covid secure facilities.

I also wish to take the opportunity to say that we have the support of many AM's across Wales, including Rhun ap Iwan, who represents Anglesey (where I live). I hope this petition will also receive the support of the Petitions Committee and that the Welsh Government will soon be making a positive announcement on this matter.

Kind and hopeful regards,

## Eitem 2.8

**P-05-1063 Dylid agor cyrsiau golff gan eu bod yn chwarae rôl hanfodol o ran gwella iechyd corfforol ac iechyd meddyliol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sam Evans, ar ôl casglu cyfanswm o 6,317 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae'n ffaith hysbys bod golff, a gweithgarwch corfforol o ran hynny, yn gwella iechyd corfforol ac iechyd meddyliol! Mae golff ymysg yr ychydig chwaraeon y gallwch chi gymryd rhan ynddynt a bod yn ddiogel yr un pryd trwy gadw pellter cymdeithasol, ac o ystyried y ffocws cyfredol ar iechyd meddwl, nid wyf yn credu ei bod yn benderfyniad doeth amddifadu rhai pobl o'r unig fath o ymarfer corff sydd ganddynt.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Merthyr Tudful a Rhymni
- Dwyrain De Cymru



Ein cyf/Our ref DET/03021/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor  
Deisebau

16 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth, ynghylch deiseb P-05-1063 i agor cyrsiau golff yn ystod y cyfnod atal.

Rwy'n ymddiheuro am yr oedi wrth ymateb i'ch ymholiad.

Fel y gwyddoch, roedd angen y gweithredu am bythefnos i achub bywydau a sicrhau bod y GIG yn gallu ymdopi. Mae achosion o'r coronafeirws wedi bod yn cynyddu'n gyflym yng Nghymru wrth i'r feirws ddeffro ar gyfer y gaeaf. Er bod y mesurau cenedlaethol a lleol a drefnwyd ledled Cymru wedi helpu i gadw rheolaeth ar ledaeniad yr haint, roedd consensws cynyddol bod angen rhagor o weithredu, gyda neges gref i 'aros gartref'. Bu'n rhaid ystyried effaith gronol y camau y byddwn yn eu cymryd. Effaith gyfun gweithredu niferus sy'n gneud y gwahaniaeth, yn hytrach na risg un gweithgarwch.

Yn dilyn diwedd y cyfnod atal yn yr Hydref, o'r 9fed Tachwedd daeth cyfres newydd o reoliadau i Gymru, ac mae nifer o'r cwestiynau cyffredin a'r atebion yn gysylltiedig â'r rheoliadau hynny i'w gweld [yma](#). Ar 2 Tachwedd amlinellodd y Prif Weinidog y mesurau cenedlaethol newydd a ddaeth i rym yn dilyn y cyfnod atal, gan gadarnhau y byddai cyrsiau golff a chyfleusterau hamdden yng Nghymru yn gallu ail-agor o'r 9 Tachwedd, ac y bydd gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer grwpiau o hyd at 15 o dan dô a hyd at 30 yn yr awyr agored yn cael ei ganiatáu ledled Cymru.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech hysbysu eich etholwr ein bod yn cydnabod yn llawn ymdrechion ac aberth y cyhoedd a busnesau yng Nghymru i gadw Cymru yn ddiogel ac i achub bywydau, a'n bod yn ddiolchgar iawn. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig diweddariadau rheolaidd drwy gynadleddau i'r wasg am Covid-19 a'n sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol dros yr wythnosau nesaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn gwneud y sefyllfa bresennol yn fwy eglur.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'E. Elis-Thomas'.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

### **P-05-1057 Cynyddu nifer y bobl sy'n cael mynd i dderbyniadau priodas**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Simon Clark, ar ôl casglu cyfanswm o 984 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae gennym briodas wedi'i chynllunio ar gyfer diwedd mis Hydref, ond ar hyn o bryd ni allwn gael derbyniad i ddilyn gyda'n gwesteion i gyd. Gallem gael pryd o fwyd mewn bwyty ond nid 'derbyniad'.

#### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Ar hyn o bryd mae Gogledd Iwerddon yn caniatáu i leoliadau gyfyngu ar y niferoedd ar sail maint y lleoliad a chadw pellter cymdeithasol diogel. Hoffem weld hyn yn cael ei gyflwyno yng Nghymru. Byddai hyn yn sicrhau cydraddoldeb rhwng y diwydiant bwytai / tafarndai a'r diwydiant priodasau. Mae'r rheoliadau presennol a diffyg amserlen wrth symud ymlaen wedi gadael cannoedd o gyplau mewn cyflwr o ansicrwydd a dan bwysau sylweddol yn ystod cyfnod a ddylai fod yr hapusaf yn eu bywydau.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru

# Cynyddu nifer y bobl sy'n cael mynd i dderbyniadau priodas

Y Pwyllgor Deisebau | 01 Rhagfyr 2020  
Petitions Committee | 01 December 2020

Cyfeirnod: RS20/14570-6

Rhif y ddeiseb: P-05-1057

Teitl y ddeiseb: Cynyddu nifer y bobl sy'n cael mynd i dderbyniadau priodas.

Geiriad y ddeiseb: Mae gennym briodas wedi'i chynllunio ar gyfer diwedd mis Hydref, ond ar hyn o bryd ni allwn gael derbyniad i ddilyn gyda'n gwesteion i gyd. Gallem gael pryd o fwyd mewn bwyty ond nid 'derbyniad'.

Ar hyn o bryd mae Gogledd Iwerddon yn caniatáu i leoliadau gyfyngu ar y niferoedd ar sail maint y lleoliad a chadw pellter cymdeithasol diogel. Hoffem weld hyn yn cael ei gyflwyno yng Nghymru. Byddai hyn yn sicrhau cydraddoldeb rhwng y diwydiant bwytai / tafarndai a'r diwydiant priodasau.

Mae'r rheoliadau presennol a diffyg amserlen wrth symud ymlaen wedi gadael cannoedd o gyplau mewn cyflwr o ansicrwydd a dan bwysau sylweddol yn ystod cyfnod a ddylai fod yr hapusaf yn eu bywydau.



## 1. Cefndir

Ar 23 Mawrth 2020, er mwyn atal lledaeniad y coronafeirws, cyflwynwyd cyfyngiadau ar ymgynnull a symud, ynghyd â chau busnesau nad ydynt yn hanfodol. Ymhlith y manau yr oedd angen eu cau roedd addoldai, cofrestrfeydd, lleoliadau priodas a busnesau lletygarwch. Yn sgil hyn, cafodd yr holl briodasau a seremonïau partneriaeth sifil eu gohirio neu eu canslo.

Ar ddechrau mis Mehefin 2020, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru [y byddai rhai o'r cyfyngiadau cyntaf yn cael eu llacio yng Nghymru](#), ond nid oedd hyn yn ymestyn i gynnwys priodasau a seremonïau partneriaeth sifil. Yr unig eithriad i'r cyfyngiad oedd pan oedd un rhan o'r cwpl yn angheuol wael.

Wrth i nifer yr achosion leihau dros amser, cyhoeddwyd rhagor o fesurau i lacio'r cyfyngiadau yn raddol. Ganol mis Mehefin 2020, caniatwyd i addoldai a chofrestrfeydd gynnal seremonïau unwaith eto, [fel yr adroddwyd yn yr erthygl newyddion hon ar BBC Wales](#). Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ymestyn i dderbyniadau priodasau a phartneriaethau sifil. Gwnaed diwygiadau pellach i'r [rheoliadau ar 21 Awst](#) (sydd wedi'u dirymu bellach), a oedd yn caniatáu i hyd at [30 o bobl fynychu derbyniad](#) i ddathlu gweinyddiad priodas neu bartneriaeth sifil mewn adeilad rheoledig. Roedd y terfyn o 30 yn berthnasol ar y pryd i dderbyniadau a gynhelir dan do neu'r tu allan.

Yn ystod mis Medi a mis Hydref 2020, gorfodwyd sawl cyfnod o gyfyngiadau symud lleol mewn ardaloedd yng Nghymru. Roedd y rheoliadau yn gosod cyfyngiadau penodol ar symud ac ymgynnull, er bod teithio i mewn neu allan o [ardal diogelu iechyd leol](#) i fynd i [weinyddiad](#) priodas neu bartneriaeth sifil yn dal i gael ei ystyried yn esgus rhesymol. Ar y pryd, caniatwyd derbyniadau hefyd, ond roedd rhaid i [bob gwestai](#) mewn derbyniad priodas fyw yn yr ardal diogelu iechyd.

Ar [19 Hydref 2020](#), cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai Cymru yn dechrau ar gyfnod atal byr am bythefnos. Gosododd [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Rhif 3\) \(Cymru\) 2020](#) (bellach wedi'u dirymu) gyfyngiadau newydd ar symud ac ymgynnull. Caniatwyd mynychu gweinyddiad priodas neu ffurfio partneriaeth sifil yn ystod y cyfnod atal byr, ond gwaharddwyd derbyniadau neu ddathliadau yn dilyn y seremoni.

Cyflwynwyd set newydd o reolau a chanllawiau cenedlaethol ar [9 Tachwedd 2020](#).

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

### Y rheolau ar gynnal derbyniadau priodas

Mae rhan 2 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (fel y'u diwygiwyd) yn gosod cyfyngiadau ar gyfarfod â phobl eraill (y cyfeirir ato fel "cymryd rhan mewn cynullïadau") ac ar ddigwyddiadau.

Mae rheoliad 4 yn cyfyngu ar gynullïadau yng nghartrefi pobl i ddim ond y rheini sy'n rhan o aelwyd estynedig (neu "swigen"). Mae rheoliad 6 yn dweud y gall nifer gyfyngedig o bobl (4 o bobl ac eithrio plant o dan 11 oed) o wahanol aelwydydd gyfarfod i ffwrdd o gartrefi pobl. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau penodol i'r rheolau hyn lle bo'n rhesymol angenrheidiol ymgynnull ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol.

Mae eithriadau yn cynnwys gweithgareddau penodol "wedi eu trefnu" sy'n cynnwys hyd at 15 o bobl sy'n cyfarfod o dan do a 30 o bobl sy'n cyfarfod yn yr awyr agored. Darperir enghreifftiau o'r hyn a allai fod yn eithriadau ar gyfer cynullïad o dan Rheoliad 6(5). Un eithriad o'r fath yn y Rheoliadau yw caniatáu i nifer gyfyngedig o bobl ymgynnull i fynd i dderbyniad i ddathlu priodas neu bartneriaeth sifil.

Mae rheoliad 6(6)(e) yn gwneud eithriadau ar gyfer:

- cymryd rhan mewn cynullïad o **ddim mwy na 15 o bobl**, heb gynnwys personau o dan 11 oed, mewn mangre reoleiddiedig i—
  - (i) dathlu gweinyddiad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil sy'n digwydd ar neu ar ôl 22 Awst 2020.

### Y canllawiau

Gellir cynnal derbyniad priodas neu bartneriaeth sifil ar gyfer hyd at 15 o bobl mewn adeilad rheoledig (fel tafarndai, bwytai, gwestai neu ganolfannau cymunedol), cyhyd â bod 'pob mesur rhesymol' yn cael ei gymryd i leihau'r risg o ledaenu'r coronafeirws. Bydd hyn yn cynnwys cyfyngiadau ar y math o weithgarwch a all ddigwydd – er enghraifft ni ddylid chwarae cerddoriaeth uchel, a dylid gweini unrhyw fwyd wrth y bwrdd yn hytrach na bwffe. Nid yw'r terfyn ar y rhai a all fod yn bresennol yn cynnwys plant dan 11 oed na staff sy'n gweithio yn y digwyddiad.

Dywed canllawiau Llywodraeth Cymru ar y rheolau cenedlaethol:

Caiff uchafswm o 15 o bobl fynychu derbyniad priodas neu bartneriaeth sifil neu wylnos ar ôl angladd, cyn belled â bod hyn yn digwydd mewn safle a reoleiddir. Mae nifer y bobl sy'n gallu mynychu angladd neu seremoni priodas neu bartneriaeth sifil yn dibynnu ar y safle y mae'n digwydd ynddo.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am y rheolau ar gyfer cynnal derbyniadau priodas ar gyfer safleoedd ar reoleiddir yn y [canllawiau ar gynnal derbyniadau priodas](#).

Er bod cynnal derbyniadau mewn safle a reoleiddir wedi'i ragnodi yn ôl y gyfraith, mae yna reoliad hefyd sy'n darparu ar gyfer cynnal a mynychu digwyddiadau awyr agored. Mae Rheoliad 6(6)(j) o'r [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Rhif 4\) \(Cymru\) 2020](#) (fel y'u diwygiwyd) yn gwneud darpariaeth i bobl gymryd rhan mewn **gweithgaredd wedi ei drefnu yn yr awyr agored** neu hwyluso'r gweithgaredd hwnnw lle nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys plant dan 11 oed, ac ni ellir yfed unrhyw alcohol mewn digwyddiad o'r fath.

Er nad yw'r rheoliad yn cyfeirio'n benodol at dderbyniadau priodas neu bartneriaeth sifil, mae [Canllawiau i awdurdodau lleol, safleoedd cymeradwy a mannau addoli ar briodasau a phartneriaethau sifil: coronafeirws](#) Llywodraeth Cymru yn nodi:

Caniateir derbyniadau priodas gyda hyd at 15 o bobl yn bresennol o dan do a hyd a 30 o bobl mewn digwyddiad wedi'i drefnu yn yr awyr agored. Mae hawl i yfed alcohol fel rhan o ddatliad dan do os yw hyn yn rhan o bryd cylllell a fforc.

### 3. Camau gweithredu'r Senedd

Mae Pwyllgor Deisebau'r Senedd eisoes wedi trafod [deiseb yn galw am ganiatáu priodasau yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf](#). Cyflwynwyd y ddeiseb hon cyn y caniatwyd i seremonïau priodas fynd yn eu blaen, ac nid oedd yn ymwneud â derbyniadau priodas.

Ar 23 Medi 2020, gofynnodd [Mark Isherwood AS](#) mewn cwestiwn ysgrifenedig i'r [Gweinidogion](#) a oedd gan Lywodraeth Cymru 'unrhyw gynlluniau yn y dyfodol agos i leihau'r nifer fwyaf a gaiff fynd i dderbyniadau priodas o 30 i 15 o bobl fel yn Lloegr?'. Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru:

We have no current plans to amend the 30 person limit for wedding receptions. We will continue to keep the position under review but at present, there is no substantive evidence that weddings and receptions have been the source of significant transmission.

Ar 3 Tachwedd 2020 mewn datganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn cadarnhaodd y Prif Weinidog:

Fe fydd eithriad ar wahân ar gyfer hyd at 15 o bobl i allu bod yn bresennol mewn gwledd briodas neu bartneriaeth sifil neu de angladd, ac ni fydd plant dan 11 oed yn cael eu cyfrif yn rhan o'r cyfyngiadau ar gwrdd ag eraill yn y lleoliadau rheoledig hyn.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r briffiau hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-1057  
Ein cyf/Our ref FM -/01690/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

Annwyl Gadeirydd

12 Tachwedd 2020

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 20 Hydref ynglŷn â deiseb i gynyddu'r nifer o bobl sy'n medru mynychu gwledd neu dderbyniad priodas.

Cyn dechrau'r 'cyfnod atal byr', a ddaeth i ben ar 9 Tachwedd, roedd y rheoliadau yn caniatáu hyd at 30 o bobl i ymgynnull ar gyfer gwledd briodas. Hwn oedd un o'r ychydig eithriadau oedd yn caniatáu pobl i ymgynnull o dan do. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd caniatáu teulu a ffrindiau i ddathlu'r digwyddiad hapus.

Yn ystod y 'cyfnod atal byr', nid oedd hawl cynnal gwledd briodas, er roedd hawl cynnal priodas neu gwasanaeth sifil cyfreithiol. Ar ôl 9 Tachwedd, gellir cynnal gwledd briodas unwaith eto ar gyfer hyd at 15 o bobl.

Pan cynhelir gwledd o dan do, rhaid iddo ddigwydd mewn mangreoedd a reolir (er enghraifft tafarndai, bwytai, gwestai neu canolfannau cymunedol) ac mae rheolau ar y math o weithgareddau y gall ddigwydd – er enghraifft, ni ddylid chwarae cerddoriaeth uchel, a dylid gweini bwyd wrth y Bwrdd yn hytrach na thrwy cinio bys a bawd. Nid yw'r reolau ar y rheiny gall fod yn bresennol yn cynnwys plant o dan 11 oed neu staff sy'n gweithio yn y digwyddiad.

Am ragor o wybodaeth, gweler ein canllawiau a gynnal digwyddiadau priodas:  
<https://llyw.cymru/asesiadau-risg-ar-gyfer-lleoliadau-digwyddiadau-priodas>

Mae'r deisebwr yn cymharu ymgynnull ar gyfer gwledd briodas gyda chael pryd o fwyd mewn bwyty. Mae yna wahaniaeth pendant rhwng y ddau ddigwyddiad. Casgliad o bobl yn dod at ei gilydd at yr un pwrpas yw cynulliad ac mae cymysgu rhwng aelwydydd yn cynyddu'r risg o ymledu'r feirws yn sylweddol. Gall bobl fynd i fwyty am bryd o fwyd heb

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gymysgu'n gymdeithasol gydag eraill yn yr un lleoliad ac mae ein rheoliadau yn tanlinellu hyn. Pan mae pobl wedi ymgynnull i ddathlu digwyddiad hapus ac yn adnabod ei gilydd mae cymysgu yn fwy naturiol ac felly mae angen ei reoli'n ofalus.

Mae'r dystiolaeth wyddonol yn dangos bod y feirws yn lledaenu'n haws o dan do oherwydd ei fod yn medru goroesi yn yr atmosffer ac ar arwynebedd am amser hir heb olau haul uniongyrchol ac awyru digonol. Am y rheswm hynny mae cyfyngu'r nifer sy'n medru ymgynnull o dan do, hyd yn oed gyda mesurau lliniaru megis cadw pellter cymdeithasol a mesurau hylendid da, yn bwysig i leihau'r risg o drosglwyddiad ac i ddiogelu anwyliaid.

Mae yna dystiolaeth ryngwladol o wleddei priodas yn troi'n ddigwyddiadau arch-ledaeniad. Mae'r digwyddiadau yma ar draws y byd yn tanlinellu pwysigrwydd cymryd ymagwedd ofalus a dyna pam yr ydym wedi cyfyngu'r rhif sy'n medru ymgynnull i 30.

Dymuniadau gorau

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

**MARK DRAKEFORD**

## P-05-1058 Atal ail gyfnod o gyfyngaidau symud cenedlaethol yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Taylor Harris, ar ôl casglu cyfanswm o 160 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried gorfodi ail gyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol yng Nghymru. Bydd hyn yn drychineb i fywoliaeth a llesiant pobl.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Castell-nedd
- Gorllewin De Cymru



Eich cyf/Your ref: P-05-1058  
Ein cyf/Our ref: FM -/01699/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

[petitions@senedd.cymru](mailto:petitions@senedd.cymru)

16 Tachwedd 2020

Annwyl Gadeirydd,

Ysgrifennaf i ymateb i'ch llythyr dyddiedig 20 Hydref am ddeiseb ynglŷn ag ail gyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol.

Fel y gwyddoch, yma yng Nghymru rydym newydd ddod i ddiwedd cyfnod atal byr o 17 o ddiwrnodau, a ddechreuodd ar 23 Hydref ac a ddaeth i ben ar 9 Tachwedd.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y cyfnod atal byr hwn yn seiliedig ar y cyngor clir a gafwyd gan ein cyngorwyr gwyddonol a meddygol. Mae'r cyngor gwyddonol a oedd yn sail i'n penderfyniad wedi ei egluro yn yr adroddiad gan y Gell Cyngor Technegol, sydd wedi ei gyhoeddi yn: <https://llyw.cymru/grwp-cyngor-technegol-cyfnod-atal-byr>

Mae'r coronafeirws wedi bod yn lledaenu'n gyflym drwy Gymru, ac mae'n bresennol ym mhob rhan o'r wlad. Nod y cyfnod atal byr llym hwn oedd helpu i ddod â'r feirws yn ôl dan reolaeth. Pe na baem wedi gweithredu, roedd perygl real iawn y byddai'r GIG wedi cael ei lethu ac y byddai hyd yn oed mwy o bobl yn colli eu bywydau o ganlyniad.

Daeth set newydd o fesurau cenedlaethol i rym o 9 Tachwedd, gan ddisodli cyfyngiadau llym iawn y cyfnod atal byr a'r cyfyngiadau lleol a oedd ar waith mewn llawer man yng Nghymru cyn 23 Hydref. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu ymhen dwy wythnos.

Ni fyddwn yn gwybod i ba raddau y bu'n cyfnod atal byr yn llwyddiannus am rai wythnosau oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd i symptomau ymddangos. Fodd bynnag, ni fydd y coronafeirws yn diflannu ar ôl y cyfnod atal byr – bydd yn dal gyda ni, ac os ydym am

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gadw'r feirws o dan reolaeth, mae angen inni i gyd feddwl am ein bywydau ein hunain a sut y gallwn gadw ein teuluoedd yn ddiogel. Mae angen inni roi'r gorau i feddwl yn nhermau beth yw terfyn eithaf y rheolau a'r rheoliadau.

Mae'r coronafeirws yn eithriadol o heintus – mae'n ffynnu mewn sefyllfaoedd lle mae pobl yn dod i gysylltiad â'i gilydd. Er mwyn cadw ein gilydd yn ddiogel, mae angen inni leihau nifer y bobl yr ydym yn dod i gysylltiad â nhw, a'r amser yr ydym yn ei dreulio yn eu cwmni.

Nod y mesurau cenedlaethol newydd yw sicrhau y byddwn yn gallu cael y budd gorau a'r effaith fwyaf o weithredu cyfnod atal byr, ond ni allwn fynd yn ôl at sut yr oeddem yn byw o'r blaen gan daflu'r holl waith caled a gyflawnwyd i ffwrdd. Mae gan bob un ohonom rôl barhaus yn yr ymdrechion i gadw Cymru yn ddiogel.

Dymuniadau gorau,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

**MARK DRAKEFORD**

## Eitem 2.11

**P-05-1059 Dylid rhoi manau addoli mewn dosbarth hanfodol, er mwyn caniatáu i bobl fynd i eglwys yn ystod cyfnod o gyfyngiadau symud**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Clyde Thomas, ar ôl casglu cyfanswm o 3,591 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae manau addoli wedi'u dosbarthu fel manau nad ydynt yn hanfodol gan Lywodraeth Cymru. Goblygiadau hyn, yn ei hanfod, yw bod eglwysi wedi cael eu rhoi yn yr un dosbarth o ran pwysigrwydd â siopau manwerthu ac ni allant gynnal gwasanaethau yn ystod "cyfnod atal byr" neu "gyfyngiadau symud". Nid oes tystiolaeth bod eglwysi wedi cyfrannu at ledaeniad Covid-19. Mae eglwysi wedi bod yn un o'r enghreifftiau gorau o amgylcheddau sy'n ddiogel o ran Covid-19, ac maent wedi dilyn canllawiau helaeth, afresymol bron, yn llym, i wneud eu rhan dros y genedl.

### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Er bod rhai wedi dadlau y gall eglwysi barhau i weithredu ar-lein, mae hyn ar draul yr ymdeimlad o gymuned. Mae hyn yn arwain at niwed diangen i bobl, pan nad oes dim tystiolaeth bod eglwysi wedi cyfrannu at ledaeniad Covid-19.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Tor-faen
- Dwyrain De Cymru

# P-05-1059 Dylid rhoi manau addoli mewn dosbarth hanfodol, er mwyn caniatáu i bobl fynd i eglwys yn ystod cyfnod o gyfyngiadau symud

Y Pwyllgor Deisebau | 1 Rhagfyr 2020  
Petitions Committee | 1 December 2020

Cyfeirnod: RS20/14570

Rhif y ddeiseb: P-05-1059

**Teitl y ddeiseb:** Dylid rhoi manau addoli mewn dosbarth hanfodol, er mwyn caniatáu i bobl fynd i eglwys yn ystod cyfnod o gyfyngiadau symud

**Geiriad y ddeiseb:** "Mae manau addoli wedi'u dosbarthu fel manau nad ydynt yn hanfodol gan Lywodraeth Cymru. Goblygiadau hyn, yn ei hanfod, yw bod eglwysi wedi cael eu rhoi yn yr un dosbarth o ran pwysigrwydd â siopau manwerthu ac ni allant gynnal gwasanaethau yn ystod "cyfnod atal byr" neu "gyfyngiadau symud". Nid oes tystiolaeth bod eglwysi wedi cyfrannu at ledaeniad Covid-19. Mae eglwysi wedi bod yn un o'r enghreifftiau gorau o amgylcheddau sy'n ddiogel o ran Covid-19, ac maent wedi dilyn canllawiau helaeth, afresymol bron, yn llym, i wneud eu rhan dros y genedl.

Er bod rhai wedi dadlau y gall eglwysi barhau i weithredu ar-lein, mae hyn ar draul yr ymdeimlad o gymuned. Mae hyn yn arwain at niwed diangen i bobl, pan nad oes dim tystiolaeth bod eglwysi wedi cyfrannu at ledaeniad Covid-19.



## 1. Cefndir

Roedd yn ofynnol i fannau addoli gau ac eithrio amgylchiadau penodol yn ystod y cyfyngiadau symud ledled y DU rhwng mis Mawrth a mis Mehefin, a'r cyfnod atal byr rhwng 23 Hydref ac 8 Tachwedd. Mae canllawiau presennol Llywodraeth Cymru yn caniatáu i fannau addoli agor at ddibenion gwasanaethau a seremonïau, ond gyda'r gofyn i gadw pellter cymdeithasol, a rhoi mesurau eraill ar waith.

Mae Erthygl 9 o Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol (sydd wedi'i ymgorffori yng nghyfraith ddomestig y DU trwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998) yn rhoi'r hawl i bawb **amlygu eu crefydd neu eu cred**. Mae'n hawl 'gymwysedig' yn hytrach na hawl 'absoliwt', sy'n golygu y **gellir ei chyfyngu mewn rhai amgylchiadau**. Rhaid i unrhyw ymyrraeth â'r hawl fod yn gymesur, yn gyfreithlon ac yn angenrheidiol er budd diogelwch y cyhoedd, amddiffyn iechyd neu amddiffyn hawliau a rhyddid eraill (ymhlith seiliau eraill).

Mae grŵp eiriolaeth – sydd heb gysylltiad â'r ddeiseb hon – o'r enw Christian Concern yn ymgyrchu i eglwysi gael eu heithrio rhag cyfyngiadau symud yng Nghymru a Lloegr. Ar 23 Hydref, cydlynodd y grŵp lythyr at y Prif Weinidog fel rhan o brotocol 'cyn gweithredu' ar gyfer adolygiad barnwrol, a lofnodwyd gan nifer o arweinwyr eglwysi Cymru. Honnodd fod cyfyngiadau'r cyfnod atal byr yn **ymyrraeth eithafol â hawliau Erthygl 9**, ac y gellir ond cyfiawnhau ymyrraeth mor bell-gyrhaeddol ar raddfa eang **ar sail y dystiolaeth wyddonol fwyaf cymhellol bod hynny o fudd i iechyd cyhoeddus**." Dilynwyd hyn ar 29 Hydref gan lythyr arall ar ôl cael ymateb gan Lywodraeth Cymru (nad yw'n ymddangos ei fod wedi'i gyhoeddi).

Ar 2 Tachwedd, anfonwyd llythyr tebyg, cyn gweithredu Lywodraeth y DU ynghylch y cyfyngiadau symud yn Lloegr.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn ei hadroddiad ym mis Hydref ar gyfnodau atal byr, amcangyfrifodd y Gell Gyngori Technegol **effaith cau addoldai ar y gwerth R**:

**“Cau manau addoli / canolfannau cymunedol: Effaith isel i gymedrol (hyder cymedrol)**

Gostyngiad posibl yn Rt o hyd at 0.1, er ei bod yn anodd iawn rhoi amcangyfrif manwl gywir. Cysylltiad cryf â manau addoli gan gynnwys

brigiadau sylweddol o achosion sy'n gysylltiedig â chymuned grefyddol yn Ne Corea, achosion mewn eglwysi yn Singapôr, a'r Almaen (er gwaethaf mesurau cadw pellter cymdeithasol). Mae risgiau amgylcheddol yn amrywio gan dibynnu ar yr adeilad. Mae mwy o risg yn gysylltiedig â lleoliadau bach na manau mawr oherwydd mae ehangder yn lliniaru trosglwyddo aerosol. Mae rhai seremonïau'n cynnwys arwynebeddau a gyffyrddir yn aml a chyfnodau byr o ddod yn agos at bobl eraill (ee wrth gael cymundeb).”

## Rheoliadau cyfyngiadau symud ac asesiadau effaith ledled y DU

Roedd y **rheoliadau** a orfododd y cyfyngiadau symud yng Nghymru ym mis **Mawrth** yn ei gwneud yn ofynnol i gau manau addoli, ac eithrio: angladdau, darlledu gwasanaethau, darparu gwasanaethau gwirfoddol, neu ddarparu gwasanaethau cyhoeddus brys (er enghraifft banciau bwyd, cefnogaeth i bobl ddigartref neu bobl sy'n agored i niwed, rhoi gwaed neu gymorth brys) r gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol.

Roedd yr **asesiad effaith** o'r rheoliadau a gyhoeddwyd ym mis Mehefin yn asesu effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ailagor addoldai (t26). At hynny, mae **asesiadau effaith** olynol wedi ystyried effaith cyfyngiadau ar hawliau Erthygl 9, ond yn nodi bod y cyfyngiadau yn seiliedig ar seiliau iechyd cyhoeddus y gellir eu cyfiawnhau.

## Rheoliadau cyfyngiadau symud ac asesiadau effaith

Roedd y **rheoliadau** a orfododd y '**cyfnod atal byr**' yng Nghymru yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd yn ei gwneud yn ofynnol i addoldai gau, ac eithrio: angladdau, gweinyddu priodasau neu ffurfio partneriaethau sifil, darlledu gwasanaethau, darparu gwasanaethau gwirfoddol hanfodol, neu ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol.

Nododd yr **asesiad effaith** o gyfyngiadau'r cyfnod atal byr yr **effaith negyddol ar bobl â chredoau crefyddol, ac** fe wnaethant ystyried caniatáu i wasanaethau gael eu darlledu fel mesur lliniaru. At hynny, amlygodd fod pobl hŷn yn fwy tebygol o fynd i addoldai gan gynyddu eu risg o gael eu heintio, o ganlyniad.

Roedd yr asesiad effaith yn cydnabod yr **ymyrraeth â hawliau Erthygl 9**, ond yn dweud:

---

“Diben sylfaenol y cyfyngiadau symud yw **gwarchod hawl pawb i fyw (Erthygl 2 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol)**. Er y bydd y pecyn o fesurau y cytunwyd arnynt i'w gweithredu rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd yn mynd yn groes i lawer o erthyglau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ystyrir bod hyn yn **gymesur wrth geisio diogelu bywydau**.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod y penderfyniad i weithredu cyfnod atal byr o bythefnos - gyda chyfyngiadau llym ar aelwydydd a chau llawer iawn o'r economi - **yn taro cydbwysedd rhwng diogelu iechyd y cyhoedd a'r niwed cymdeithasol, ariannol, economaidd a llesiant a achosir gan y cyfyngiadau**. Byddai cyfnod hirach yn achosi mwy o niwed i fywydau a bywoliaeth pobl. Diben y cyfyngiadau llymach yn ystod y cyfnod byr hwn yw lleihau'r angen am gyfyngiadau pellach, er na ellir diystyru hyn.”

Mae'r asesiad effaith wedi'i ddiweddarau yn nodi y bydd ailagor addoldai yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant pobl â chredoau crefyddol.

## Fforwm Cymunedau Ffydd

Mae gan Lywodraeth Cymru Fforwm Cymunedau Ffydd ac mae cofnodion cyfarfodydd y Fforwm ym mis Ebrill a mis Mehefin yn rhoi trosolwg o'r trafodaethau am effaith cyfyngiadau ar gymunedau crefyddol yng Nghymru. Gwnaeth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Jane Hutt, ysgrifennu at arweinwyr ffydd ar 23 Mawrth ynghylch y cyfyngiadau symud cyntaf.

## 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Cafodd cau addoldai yn ystod y cyfnod atal byr wedi ei godi yn y Cyfarfod Llawn nifer o weithiau.

Ar 20 Hydref, mewn ymateb i gwestiwn gan Darren Millar AS, nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Rebecca Evans AS, ei bod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd addoli i lesiant pobl, a bod “y dystiolaeth a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth, a gafwyd gan y grŵp TAC [...] yn nodi pwysigrwydd lleihau'r cysylltiadau sydd gennym. Ni allwn roi ystyriaeth i bob math o leoliad, gan ein bod yn ystyried cysylltiadau pobl yn gyffredinol ac yn ceisio lleihau nifer y cysylltiadau sydd gennym. Rwy'n gwerthfawrogi'r anawsterau a achosir i bobl”.

P-05-1059 Dylid rhoi manau addoli mewn dosbarth hanfodol, er mwyn caniatáu i bobl fynd i eglwys yn ystod cyfnod o gyfyngiadau symud

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r briffiau hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref: P-05-1059  
Ein cyf/Our ref: FM -/01697/20

Janet Finch-Saunders MS  
Chair  
Petitions Committee  
Senedd

[Petitions@senedd.wales](mailto:Petitions@senedd.wales)

3 November 2020

Dear Chair

I am writing to respond to your letter regarding a petition about attendance at places of worship.

I understand the concerns raised by the petitioner. However, these are not decisions we have taken lightly.

The scientific advice the government received is that a short and deep firebreak lockdown is necessary to curtail the rapid rise in cases of the virus, to prevent the NHS from becoming overwhelmed in the coming weeks and ultimately to save lives.

There are very few options in front of us – without a firebreak now, we face the prospect of a more drawn-out set of restrictions, similar to the open-ended lockdown of the spring, which ultimately would be a greater impingement on all our lives.

I recognise and applaud the responsible contribution faith groups have made in responding to the pandemic by creating new ways of practising faith and making sure worship can take place in a safe environment. I am extremely grateful to the faith leaders who have worked closely with us to develop guidance and communicate with the wider faith community. I am confident that this has made an important contribution to the management of the pandemic.

However, we continue to face a situation where transmission rates are too high. Transmission can only be limited by reducing the number of contacts we each have with one another and in this context it is not a judgement on the relative value of the activity that has guided our decision, it is the immediacy or long-lasting impact of the harm that results.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 114  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

The advice we have received is that the firebreak must be intensive and we must stay at home as much as possible to limit our contact with others. We are asking people to make sacrifices for a time-limited period so we can regain control of this pandemic and protect people in Wales.

I hope this offers you and your petitioner an explanation of our decision.

Best wishes

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

**MARK DRAKEFORD**

## **P-05-1059 Classify Places of Worship as essential, to allow people to attend church during lockdowns, Correspondence – Petitioner to Committee, 16.11.20**

Whilst I and the other signatories understand the challenges at this time relating to Covid-19, to make public worship illegal is an incredibly bold move by any government. This is a constitutional right that goes back hundreds of years and thousands are concerned that a vast overstepping of our liberties has taken place here. We are simply asking that places of worship are reclassified as essential.

Prior to the firebreak lock-down, local churches like ours had worked incredibly hard to make environments Covid-safe and track and trace has revealed zero cases of transmission through our gatherings. Furthermore, the scientific evidence points to the fact that closing churches makes no change to the 'R' rate, meanwhile making a huge difference to the victims of mental health crisis who would otherwise have the support they need from us.

For Christians, assembling together is a Biblical mandate, the 'Ekklesia' (original biblical text language) means the gathering together of God's called out ones. To forsake this presents huge issues for the Christian conscience and therefore forces Christians to neglect their core values and belief, which amounts to religious discrimination.

As local church communities, we have been at the forefront of support for communities across Wales. The volunteer base that churches offer is worth billions UK wide. These volunteers ultimately are Christians who are doing this to practice their faith, but if their faith-based practice of assembling is effectively cut off, this has drastic consequences for the nation as a whole.

We also applaud the work of local churches across the UK in finding innovative ways to limit the damage that ceasing public worship has caused, but we must stress that damage limitation cannot be allowed to continue. Zoom, and online church may reach some people, but statistics now show that 1 in 3 people have stopped attending church, and up to 70% of people are disengaged from online facilities. Online is simply not a valid alternative to in-person, Covid-safe services.

Should you require any further information, please do not hesitate to contact me.

### **P-05-1061 Rhowch gefnogaeth ariannol i fusnesau Lletya Anifeiliaid Anwes**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Ryan Lee, ar ôl casglu cyfanswm o 2,144 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae'r grantiau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer busnesau mewn ardaloedd cyfyngiadau lleol neu yn grantiau datblygu busnes. Mae nifer o fusnesau Lletya Anifeiliaid Anwes y tu allan i ardaloedd cyfyngiadau lleol wedi sylwi bod nifer y cwsmeriaid wedi lleihau i ddim. Ni ellir defnyddio'r Grantiau Datblygu Busnes i dalu biliau misol. Mae angen cymorth ariannol ar fusnesau lletya anifeiliaid anwes nawr i'w hatal rhag mynd i'r wal. Mae cannoedd o swyddi a chartrefi mewn perygl heb gefnogaeth ariannol ddigonol.

#### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae busnesau lletya anifeiliaid anwes wedi ymdrechu i gadw'r drysau'n agored i helpu staff y Gwasanaeth Iechyd sy'n gweithio oriau hir wrth frwydro i ymdrin â Covid-19, ac maent wedi helpu i ofalu am anifeiliaid anwes pobl sydd wedi bod yn yr ysbyty. Mewn llawer o achosion, mae cael un neu ddau anifail anwes i ofalu amdanynt ar y tro yn costio rhagor iddynt nag y maent yn ei ennill, a chyda rhagor o filiau gwresogi a goleuo dros fisoedd y gaeaf bydd llawer o'r busnesau yn cael eu gorfodi i gau, ac yna ni fydd y gwasanaeth hanfodol hwn ar gael.

Mae'r rhain yn fusnesau a oedd yn llwyddiannus cyn Covid-19 a byddant yn llwyddiannus eto, cyhyd ag y caiff rhywbeth ei wneud i'w diogelu.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Preseli Sir Benfro
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

# P-05-1061 Rhowch gefnogaeth ariannol i fusnesau Lletya Anifeiliaid Anwes

Y Pwyllgor Deisebau | 1 Rhagfyr 2020  
Petitions Committee | 1 December 2020

Cyfeirnod: RS20/14570-8

Rhif y ddeiseb: P-05-1061

Teitl y ddeiseb: Rhowch gefnogaeth ariannol i fusnesau Lletya Anifeiliaid  
Anwes

Testun y ddeiseb:

Mae'r grantiau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer busnesau mewn ardaloedd cyfyngiadau lleol neu yn grantiau datblygu busnes. Mae nifer o fusnesau Lletya Anifeiliaid Anwes y tu allan i ardaloedd cyfyngiadau lleol wedi sylwi bod nifer y cwsmeriaid wedi lleihau i ddim. Ni ellir defnyddio'r Grantiau Datblygu Busnes i dalu biliau misol. Mae angen cymorth ariannol ar fusnesau lletya anifeiliaid anwes nawr i'w hatal rhag mynd i'r wal. Mae cannoedd o swyddi a chartrefi mewn perygl heb gefnogaeth ariannol ddigonol.

Mae busnesau lletya anifeiliaid anwes wedi ymdrechu i gadw'r drysau'n agored i helpu staff y Gwasanaeth Iechyd sy'n gweithio oriau hir wrth frwydro i ymdrin â Covid-19, ac maent wedi helpu i ofalu am anifeiliaid anwes pobl sydd wedi bod yn yr ysbyty. Mewn llawer o achosion, mae cael un neu ddau anifail anwes i ofalu amdanynt ar y tro yn costio rhagor iddynt nag y maent yn ei ennill, a chyda rhagor o filiau gwresogi a goleuo dros fisoedd y gaeaf bydd



llawer o'r busnesau yn cael eu gorfodi i gau, ac yna ni fydd y gwasanaeth hanfodol hwn ar gael.

Mae'r rhain yn fusnesau a oedd yn llwyddiannus cyn Covid-19 a byddant yn llwyddiannus eto, cyhyd ag y caiff rhywbeth ei wneud i'w diogelu.

## 1. Cefndir

Mae busnesau a gweithwyr wedi wynebu effeithiau sylweddol ers dechrau pandemig y coronafeirws, ac mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi datblygu ystod o fesurau i'w cefnogi. Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi erthygl sy'n amlinellu'r cynlluniau amrywiol sydd ar gael i gefnogi busnesau yn ogystal ag erthygl ar y cymorth sydd ar gael drwy'r system fudd-daliadau. Caiff y ddwy erthygl eu diweddarau'n rheolaidd.

Er nad oes cymorth sy'n benodol i'r sector ar gael i fusnesau lletya anifeiliaid anwes, mae'n bosibl y gallant gael mynediad at gynlluniau penodol eraill, gan ddibynnu ar y meini prawf o ran cymhwysra.

Mae'r deisebydd yn cyfeirio at ddau gynllun - y cymorth sydd ar gael yn yr ardaloedd sy'n destun cyfnodau clo lleol, a grantiau datblygu busnes - ac mae'n awgrymu nad yw'r rhain yn cynnig cymorth digonol i weithredwyr yn y maes penodol hwn. Mae rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hyn ar gael isod.

Mae'n werth nodi mai nod nifer o gynlluniau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw cefnogi busnesau sydd yn gorfod cau o ganlyniad i'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws. Fodd bynnag, mae busnesau lletya anifeiliaid wedi gallu parhau i fod ar agor drwy gydol pandemig y coronafeirws i ddarparu gwasanaethau i weithwyr allweddol ac unigolion eraill, fel y nodwyd yn y canllawiau ar gyfer perchnogion busnesau anifeiliaid anwes a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Lletywyr Cŵn.

Er bod busnesau lletya anifeiliaid anwes wedi aros ar agor, mae'r deisebydd yn pwysleisio bod nifer ohonynt wedi wynebu cwmp yn y galw am eu gwasanaethau.

## Cymorth gan Lywodraeth Cymru

Mae'r ddeiseb yn cyfeirio at y cymorth sydd ond ar gael i fusnesau mewn ardaloedd sy'n destun cyfnodau clo lleol. Ar 29 Medi 2020, gwnaeth Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru [ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn](#) ynghylch Cam 3 y Gronfa Cadernid Economaidd.

Bydd Aelodau'n ymwybodol bod nifer o ardaloedd yng Nghymru yn destun cyfyngiadau cyfnod clo lleol ar adeg y datganiad hwn. Ers hynny, mae [cyfnod atal byr](#) wedi'i gyflwyno'n genedlaethol (a oedd yn gofyn i nifer o fusnesau gau rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd), cyn cyflwyno [set newydd o gyfyngiadau cenedlaethol](#).

Cyn y cyfnod atal byr, ar 20 Hydref, gwnaeth Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru [ddatganiad](#) ynghylch cyllid ychwanegol fel rhan o'r Gronfa Cadernid Economaidd. Mae [erthygl gan Ymchwil y Senedd](#) ar gymorth i fusnesau ar adeg y coronafeirws yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r gwahanol ffynonellau o gyllid a chymorth sydd ar gael drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd a'r meini prawf cymhwysedd sy'n berthnasol iddynt. Mae hyn yn cynnwys manylion am y grantiau a ddarperir drwy'r Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Lleol. Roedd y cymorth a oedd ar gael i fusnesau sy'n talu ardrethi annomestig fel a ganlyn:

- roedd busnesau manwerthu, lletygarwch a hamdden sydd â gwerth ardrethol o £12,001 i £51,000 yr oedd yn rhaid iddynt gau yn ystod y cyfnod atal byr o dan *Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020* yn gymwys ar gyfer grant o £5,000; ac
- roedd busnesau sy'n gymwys ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, rhyddhad elusennol neu ryddhad clybiau chwaraeon cymunedol amatur sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000 yn gymwys ar gyfer grant o £1,000. **Roeddent hefyd yn gymwys ar gyfer grant ychwanegol o £1,000 os oeddent yn destun cyfyngiadau cyfnod clo lleol am 3 wythnos neu fwy cyn 23 Hydref** ac wedi gweld trosiant yn gostwng o leiaf 50 y cant yn ystod y cyfnod hwn. Hefyd, roedd y busnesau hyn yn gymwys ar gyfer grant ychwanegol o £2,000 os oedd yn rhaid iddynt gau ar gyfer y cyfnod atal byr o dan reoliadau'r coronafeirws.

Hefyd, cyhoeddwyd y byddai cymorth dewisol ar gael i fusnesau nad ydynt yn talu ardrethi busnesau, fel a ganlyn:

- roedd busnesau yr oedd yn rhaid iddynt gau ar gyfer y cyfnod atal byr o dan reoliadau'r coronafeirws neu a oedd yn gallu dangos bod y cyfnod atal byr yn golygu bod trosiant wedi gostwng o leiaf 80 y cant yn ystod y cyfnod hwn yn gymwys i wneud cais am grant gwerth £1,500; ac

- roedd busnesau a oedd yn bodloni'r meini prawf uchod ac yn destun cyfyngiadau cyfnod clo lleol am 3 wythnos neu fwy cyn 23 Hydref, a hynny gan weld trosiant yn gostwng o leiaf 50 y cant yn ystod y cyfnod hwn, yn gymwys i wneud cais am grant gwerth £2,000.

Mae'r deisebydd hefyd yn cyfeirio at Grantiau Datblygu Busnes, a oedd yn un o'r elfennau yn nhrydydd cam y Gronfa Cadernid Economaidd. Mae'r grantiau hyn ar gael i gefnogi busnesau wrth iddynt bontio at economi'r dyfodol. Mae'r deisebydd yn pwysleisio na ellir defnyddio'r mathau hyn o gymorth i dalu biliau o fis i fis.

Roedd y cymorth a roddwyd fel a ganlyn:

- roedd microfusnesau (sy'n cyflogi rhwng 1 a 9 person) yn gallu gwneud cais am hyd at £10,000. Roedd busnesau twristiaeth a lletygarwch, a busnesau mewn sectorau yr oedd yn rhaid iddynt gau, yn gallu cael gwerth 100 y cant o gyllid grant. Roedd yn rhaid i fusnesau mewn sectorau eraill fuddsoddi o leiaf 10 y cant o gyllid eu hunain i gyfateb â'r cyllid grant a gafwyd;
- roedd busnesau bach a chanolig (sy'n cyflogi rhwng 10 a 249 o bobl) yn gallu gwneud cais am hyd at £150,000. Roedd busnesau twristiaeth a lletygarwch, a busnesau mewn sectorau yr oedd yn rhaid iddynt gau, yn gallu cael gwerth 100 y cant o gyllid grant. Roedd yn rhaid i fusnesau mewn sectorau eraill fuddsoddi cyllid eu hunain i gyfateb â'r cyllid grant a gafwyd, gyda'r disgwyliad y byddai busnesau bach (rhwng 1 a 49 o staff) yn buddsoddi o leiaf 10 y cant, a busnesau canolig (rhwng 50 a 249 o staff) yn buddsoddi 20 y cant; ac
- roedd busnesau mawr (sy'n cyflogi 250 o bobl neu ragor) yn gallu gwneud cais am hyd at £200,000 o gyllid, ar yr amod eu bod yn buddsoddi o leiaf 50 y cant fel swm cyfatebol o'u harian eu hunain.

Ar 28 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [ddatganiad i'r wasg](#) i nodi bod Cam 3 y Gronfa Cadernid Economaidd ar agor i ymgeiswyr. Roedd y datganiad hefyd yn nodi y byddai **"busnesau cymwys sydd ddim yn gymwys am y grantiau sy'n gysylltiedig â'r ardrethi busnes yn gallu gwneud cais am hyd at £2,000 o gronfa ddewisol gwerth £25 miliwn drwy eu hawdurdod lleol"**.

Ar ôl hynny, cafodd y broses ymgeisio ar gyfer Grantiau Datblygu Busnesau ei [hatal](#) ar 29 Hydref oherwydd nifer y ceisiadau am gyllid o'r gronfa. Caeodd y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Lleol i geisiadau ar 20 Tachwedd, tra bod y grantiau dewisol yn dal i fod ar gael mewn rhai awdurdodau lleol ar adeg ysgrifennu'r erthygl hon.

## Cymorth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig

Yn ei ddatganiad ar Gam 3 y Gronfa Cadernid Economaidd, nododd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru mai nod y cymorth gan Lywodraeth Cymru oedd ategu ac atodi cynlluniau eraill gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys y Cynllun Benthyciadau Adfer a'r Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws. Mae rhagor o fanylion am y cynlluniau hyn ar gael yn yr erthygl gan Ymchwil y Senedd ar gymorth i fusnesau (linc ar gael uchod).

Hefyd, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi datblygu Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig drwy gyfnod Coronafeirws, a fydd, o bosibl, yn gallu cynnig cymorth i bobl sy'n rhedeg busnesau fel cyfleusterau lletya anifeiliaid anwes.

### Y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig drwy gyfnod Coronafeirws

---

Mae'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig drwy gyfnod Coronafeirws gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn caniatáu i bobl hunangyflogedig y mae'r coronafeirws wedi cael effaith negyddol ar eu hincwm hawlio grant arian parod trethadwy.

Mae'r grant hwn ar gael i bobl yr oedd eu helw masnachol blynyddol yn llai na £50,000 yn 2018-19 (neu yr oedd eu helw masnachol blynyddol yn llai na £50,000 y flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod 2016-17, 2017-18 a 2018-19), a lle bo dros hanner eu hincwm yn dod o hunangyflogaeth. Nid yw'r cynllun ond ar gael i bobl a fu'n masnachu yn ystod y flynyddoedd treth 2018-19 a 2019-20, sydd wedi cyflwyno eu ffurflenni treth ar gyfer 2018-19, ac sy'n parhau i fasnachu ond y mae'r pandemig yn parhau i effeithio arnynt.

Yn ddiweddar, mae'r Canghellor wedi cyhoeddi y bydd dau gylch ychwanegol o'r grant yn agor rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Ebrill 2021 i fusnesau y mae'r pandemig yn parhau i effeithio arnynt. O 30 Tachwedd, bydd busnesau yn gallu gwneud cais am 80 y cant o'u helw masnachol misol rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Ionawr 2021, mewn un taliad ar gyfer gwerth 3 mis o elw, wedi'i gapio ar gyfanswm o £7,500.

Fel yr amlinellir yn nes ymlaen yn y papur briffio hwn, mae cymorth ar gyfer yr hunangyflogedig eisoes wedi cael ei drafod yn y Senedd. Yn benodol, mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith bod nifer o bobl yn parhau i beidio â bod yn gymwys ar gyfer cymorth. Er enghraifft, ni fyddai'r bobl hynny sydd newydd ddod yn

hunangyflogedig yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynllun Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r materion hyn hefyd wedi cael [sylw yn y cyfryngau](#).

## 2. Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ei llythyr at y Cadeirydd dyddiedig 30 Hydref 2020, mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn cyfeirio at nifer o gynlluniau cymorth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi busnesau, fel y nodir uchod.

Mae llythyr y Gweinidog yn cyfeirio at gynlluniau sydd ar gael i fusnesau y bu'n rhaid iddynt gau o ganlyniad i gyfyngiadau yn sgil y coronafeirws. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, mae busnesau lletya anifeiliaid anwes wedi gallu aros ar agor.

Mae'r Gweinidog hefyd yn cyfeirio at y cymorth sydd ar gael drwy'r [Gronfa Cymorth Dewisol](#). Mae'r gronfa hon ar wahân i'r cynlluniau cymorth busnes a amlinellir uchod. Er bod y gronfa wedi'i chyflwyno i gynnig cymorth mewn argyfwng i bobl a oedd yn wynebu caledi cyn y pandemig, mae llythyr y Gweinidog yn nodi bod £5 miliwn yn ychwanegol ar gael drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol a fyddai'n gallu rhoi grantiau i bobl yr oedd angen cymorth brys arnynt yn ystod yr argyfwng. Mae hyn yn cynnwys y bobl hynny sy'n aros am fudd-daliadau.

Yn ei llythyr, mae'r Gweinidog yn annog unrhyw fusnesau y mae angen cymorth arnynt i [gysylltu â Busnes Cymru](#).

Ar [11 Tachwedd](#), dywedodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru wrth Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn Senedd Cymru y bydd Llywodraeth Cymru yn [cyflwyno pedwerydd cam y Gronfa Cadernid Economaidd yn gynnar yn 2021](#). Dywedodd:

You'll be aware that the finance Minister has set aside £300 million for financial support for businesses in the first quarter of 2021, and we're keen to make sure that the focus is on supporting jobs. Everything right now is about supporting people in employment, avoiding mass unemployment and avoiding the scarring that is associated with it. So, we're looking at how we can support businesses through the winter, into the first quarter of 2021, and to the point where we would hope there will be an array of vaccines available. We can't guarantee it—obviously, nothing can be taken for granted—but that £300 million is there, available for business support, and we want to make sure that we use further business support to protect businesses from the potential impacts of the end of the transition period as well.

Hefyd, dywedodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru yn y Cyfarfod Llawn [ar 11 Tachwedd](#) ei fod yn ystyried sut i ddefnyddio tanwariant gwerth £35 miliwn o gam cyntaf y Gronfa Cadernid Economaidd.

### 3. Camau a gymerwyd gan Senedd Cymru

Yn ddiweddar, cynhaliodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ymchwiliad i effaith y pandemig. Wrth [adrodd yn ôl ar ei gasgliadau cynnar](#) (PDF, 204KB) ym mis Mehefin 2020, pwysleisiodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a oedd yn nodi bod bylchau yn y cymorth sydd ar gael i fusnesau. Yn benodol, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru a oedd yn disgrifio'r pecyn cymorth fel a ganlyn: "a lattice... it's covering lots of areas but there are gaps". Roedd enghreifftiau penodol yn cynnwys pobl hunangyflogedig nad oedd ganddynt gyfrifon diweddar ac nad oeddent, o ganlyniad, yn gallu cael mynediad at y cynlluniau cymorth; busnesau nad oes ganddynt safleoedd gwaith; a chwmnïau nad ydynt wedi cofrestru ar gyfer treth ar werth.

Mae cymorth i bobl hunangyflogedig ac sydd ddim yn gymwys ar gyfer ystod o gynlluniau cymorth i fusnesau hefyd wedi cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn nifer o weithiau. Yn fwyaf diweddar, trafodwyd y mater hwn [ar 21 Hydref](#) ac [11 Tachwedd](#).

Mewn ymateb i enghreifftiau a roddwyd gan Aelodau o etholwyr nad ydynt wedi bod yn gymwys i gael cymorth, mae Gweinidogion Cymru wedi cyfeirio at y gronfa ddewisol gwerth £25 miliwn a weinyddir gan awdurdodau lleol fel rhan o'r Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Lleol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir ar adeg ei chyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau nau diwygio i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Rebecca Evans AS/MS  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1061  
Ein cyf/Our ref RE/00824/20

Janet Finch-Saunders MS  
Member of the Senedd  
Ty Hywel  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA  
Government.Committee.Business@gov.wales

30 October 2020

Dear Janet,

Thank you for your correspondence dated 27 October regarding the petition for financial support for the pet boarding industry in Wales.

We have created an enhanced Phase 3 of our Wales-only Economic Resilience Fund (ERF) of almost £300m, which includes an extra £150m to support to businesses affected by the firebreak.

In addition, the Welsh Government has now also stepped in to increase by £5 million the £20 million discretionary fund provided to local authorities to support businesses retain those workers at risk of falling through the gaps in support. This fund is on top of the £300 million package of grants.

An extra £5 million will also be provided to the Discretionary Assistance Fund which provides grants to people in need of urgent help during the crisis, including those waiting for benefit payments and those in employment who are facing hardship:

<https://gov.wales/discretionary-assistance-fund-daf>

The demand for the Business Development Grants has been exceptional, and at the point of writing the fund is paused to allow an assessment of applications made against fund value. Please refer to this page for updates:

<https://fundchecker.businesswales.gov.wales/erfphase3>

The Lockdown Business Fund (which includes the aforementioned discretionary grant) is also open for applications, via local authorities, now:

<https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/lockdown-business-fund>

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 125

Whilst only one element (£20m) of the Business Development Grant is linked to Tourism specifically, £80m of it is available across the economy and both other elements are open to non-tourism businesses.

Most businesses required to close should also be able to access the support available from the UK Government – through the existing Job Retention Scheme or the new expanded Job Support Scheme.

The package has been designed to be affordable within the available funding, and we had to take difficult decisions on the eligibility criteria. The measures we have taken are in addition to those provided by the UK Government, making the support package in Wales the most comprehensive and generous in the UK.

We will also go on pressing the UK Government to be responsive and responsible in terms of supporting those who continue to fall through the gaps, who have yet to receive support that is required in order to ensure that their enterprises can survive this pandemic.

Business Wales also has a wide range of non-financial advisory support available. Any business affected is encouraged to visit the Business Wales website <https://businesswales.gov.wales> or contact the Business Wales helpline on 03000 6 03000. The Business Wales Helpline is available Monday to Friday from 10am to 4pm.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans". The signature is written in a cursive style with a large initial 'R'.

**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd

## **P-05-1061 Give financial support to Pet Boarding businesses, Correspondence – Petitioner to Committee, 17.11.20**

To the committee,

Please find my response to the points raised by the Minister for Finance and Trefnydd Rebecca Evans.

She first points to Phase 3 of the Economic Resilience Fund (ERF 3). The problems with this fund lie, both in the criteria for gaining access to the fund and the restrictions of what the fund can be used for. Businesses MUST be VAT registered and have a member of staff paid through PAYE. As an industry many of our businesses are family run and so either do not employ staff or employ people on a self-employed basis. Others, such as medium sized kennels or cattery's have turnovers below the VAT threshold. This rules out the vast majority of our industry from accessing this help. Those few businesses that do meet all the criteria still find the ERF 3 unhelpful as it can only be used for business development and can not be used to pay regular bills. Pet boarding facilities are unable to move there businesses online and the only way to develop is to add more capacity which is counter productive when there are not enough customers to fill existing spaces.

The other two options mentioned by Rebecca Evans are the Discretionary Assistance Fund (DAF) and the Lockdown Business Fund (LBF). The DAF is only of assistance to individuals and does not help businesses survive. The LBF was a very welcome boost but at £1000 it was only designed to assist with surviving the two-week firebreak lockdown. It is a long way short of constituting adequate support for businesses who have had 9 months of close to zero trade and will continue to be severely affected until national and international travel returns to normal.

As an Industry we face similar problems to those faced by hotels, camp sites and other Leisure & Tourism businesses but are classed as a Service Sector industry. With travel severely restricted and people's confidence in travelling severely knocked our income has been and continues to be reduced to nearly zero.

As an industry we have kept our doors open to help key workers, those requiring a stay in hospital and those self-isolating even though doing so has, in most cases, cost more in heating, lighting etc than is earned through housing one or two pets at a time in a facility designed to hold 30.

We are calling on the Senedd to take Three steps to protect the pet boarding industry from collapse. Firstly we need an adequate support package to help businesses pay the bills so that we, as owners, can focus on protecting Jobs of those we employ and protecting our homes that are tied into our businesses. The second measure we would like to see is for all councils to be mandated to cancel licence fees for 2021. This would ease pressure on businesses already over stretched finances. Finally, we ask that our industry be recognised as a integral part of the Leisure and Tourism sector.

I have included 3 case studies below to assist in your consideration of this matter.

### **Case Study 1**

County: *Cardiff*

Animals Boarded: *Cats*

No. Of animals licenced for: 48

*Since the start of the pandemic I have received support from the Self-Employed Income Support Scheme, the first payment was £915 and the second payment was £801. I received such low payments because it was calculated on average profits over a 3 year period, I had reinvested in the business for 2 out of the 3 years therefore bringing profits down. I feel like I have been punished for trying to improve my business.*

*My turnover for period 1<sup>st</sup> April 2019 to 31<sup>st</sup> March 2020 was £39,000, for the current year to date its down to £6,000 (for same period last year I was on £29,000). My turnover in October last year was £3,000, this year it is only £52.50.*

*The council License fee is £287.00 for 2021, at my current level of trade it will take over 5 months to earn that amount. I am hoping for increased trade over the Christmas period, however, usually by this time of year I am fully booked for Christmas. This year I have 3 bookings, all of whom booked last January and are probably hoping they may still be able to go so have not cancelled yet.*

*In March I had a flood victims' cats which were brought in during the early hours on a Sunday morning (this was just before Covid 19 lockdown). I had them until they could find temporary accommodation and did not charge her, I told her to pay it forward and help someone else in need. I had no customers at all from the start of the pandemic until mid-July, of the customers I have had since July, a large proportion of them have been key workers who had worked all the way through the lockdown and needed a well-earned break.*

*I have applied for all stages of the ERF but have not been eligible as I do not pay anyone on PAYE. I was not eligible for the Business Rates Grant because, despite my asking, my council had not been out to rate me and said they could not backdate it. I have not avoided paying rates as the rateable value of my premises would be below the threshold and would fall into the small business exemption. I have just applied for the discretionary grant, however, this will be scant consolation to being left out of all other support.*

*Covid 19 will have a long-lasting effect on our industry and will not fully recover until people can freely travel, both in the UK and abroad. In previous years, a large proportion of my customers have been traveling abroad. This year I found that bookings have been for shorter periods and nobody has had the traditional 2 week holiday, it has been long weekends or a week at most. This has led to lower earnings and more work disinfecting between customers. I have unsuccessfully applied for over 20 temporary jobs in the last month and i am looking at work options. I could do that and still be able to accept customers at the current low levels, this will keep the business going for when things hopefully pick up.*

## **Case Study 2**

County: Vale of Glamorgan

Animals Boarded: Cats

No. Of animals licenced for: 12

*I received the £10,000 Welsh Government Business Support grant that helped for the first 6 months with me reducing all my outgoings (mortgage holiday, reduced franchise fee etc).*

*My normal turnover is about £22,000, I have only been trading for two years and I was just starting to build up the business. Currently I have no customers and haven't since local lockdowns were*

Swydd y *Cydlynnydd Cenedlaethol* yw cefnogi a chynghori awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir mewn perthynas â bwyd mewn ysgolion, gyda chanolbwynt at fwyta'n iach. Yng Nghymru, mae'r awdurdod lleol yn trefnu gwasanaeth arlwygo ar gyfer 99% o ysgolion cynradd a 72% o ysgolion uwchradd. Mae gweddill yr ysgolion yn trefnu eu trefniadau arlwygo eu hunain trwy arlwywyr dan gcontract neu gyflogi staff arlwygo yn uniongyrchol. Yn y blynyddoedd diweddar, mae galw cynyddol am gefnogaeth i awdurdodau lleol i reoli deietau arbennig mewn ysgolion. Ymddangosir bod hyn o ganlyniad i'r galw cynyddol a disgwyliadau rhieni a disgyblion, a chyflwyniad deddfwriaeth alergeddau sy'n mynd yn llymach.

Gellir disgrifio deiet arbennig fel darpariaeth bwyd, yn seiliedig ar ofyniad, na all gael ei ddewis yn rhydd o'r prif ddewisiadau sydd ar gael. O fewn ysgolion, mae'r rhain yn cynnwys deietau am resymau meddygol (e.e. alergeddau, anoddefgarwch, diabetes math 1, clefyd seliag), anghenion bwyta ychwanegol (e.e. gwead wedi'i addasu, amgylchedd bwyta wedi'i addasu, amrywiaeth bwyd cyfyngedig) a chrefyddol, diwylliannol, llysieuol a figan.

Dr Chris Llewelyn  
Prif Weithredwr  
Chief Executive

Cymdeithas Llywodraeth  
Leol Cymru  
Tŷ Llywodraeth Leol  
Rhodfa Drake  
CAERDYDD CF10 4LG  
Ffôn: 029 2046 8600

Welsh Local Government  
Association  
Local Government House  
Drake Walk  
CARDIFF CF10 4LG  
Tel: 029 2046 8600

[wlga.cymru](http://wlga.cymru)  
[wlga.wales](http://wlga.wales)

@WelshLGA

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**

**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**

**Tudalen y pecyn 152**  
We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.  
Use of either language will not lead to a delay.

Ym mis Ionawr 2018, sefydlodd y *Cydlynnydd Cenedlaethol* Weithgorau Rhanbarthol ar gyfer Deietau Arbennig, gan gynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau arlwyio, gwasanaethau deietig byrddau iechyd lleol, gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol, Cymdeithas Rhagoriaeth y Gwasanaethau Cyhoeddus, Coeliac UK, Diabetes UK, LACA Cymru, y Tim Awtistiaeth Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. Nod y grwpiau hyn yw:

1. Datblygu canllawiau a gytunir yn genedlaethol ar gyfer rheoli deietau arbennig mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ac annog budd-ddeiliaid i 'gofrestru'.
2. Mesur y galw, darpariaeth a goblygiadau ariannol dietau arbennig mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.
3. Amlygu a rhannu arfer da gydag amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid yng Nghymru a'r DU.
4. Recriwtio *Deietegydd Cenedlaethol* i gefnogi budd-ddeiliaid a chanolbwyntio ar ddatblygu gwaith y gweithgorau rhanbarthol.

Cafodd y bedwaredd nod ei chyflawni ym mis Rhagfyr 2019, gyda chynllun prosiect dwy flynedd a gymeradwywyd gan Fwrdd Prosiect Cenedlaethol. Yn y flwyddyn gyntaf, y cynllun oedd profi a choethi chanllawiau drafft CLILC ar gyfer rheoli deietau arbennig mewn perthynas â phrydau ysgol, a pheilota proses casglu data ar draws Cymru. Ers 28 Chwefror 2020, mae 27 o ysgolion o 13 awdurdod lleol wedi mynegi diddordeb i gymryd rhan yn y profion ysgol. Yn yr ail flwyddyn, y cynllun oedd cyflwyno canllawiau a datblygu bwydlenni deiet arbennig, ryseitiau a hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau arlwyio ysgolion. Wrth aros am gyllid ar gyfer blynyddoedd tri a phedwar, y cynllun yw adolygu, datblygu a chyfeirio ysgolion i ganllawiau deietau arbennig a hyfforddiant ar draws y diwrnod ysgol gyfan. Trwy gydol y prosiect, bydd y *Deietegydd Cenedlaethol* yn parhau i gadeirio gweithgorau rhanbarthol, cysylltu ag ystod eang o fudd-ddeiliaid a mewnbynnu adolygiadau perthnasol o ddeddfwriaethau a chanllawiau.

Mae cynnydd y prosiect wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan COVID-19. Yn dilyn gwahardd addysg statudol ym Mawrth 2020, cefnogodd CLILC secondiad y *Dietegydd Cenedlaethol* yn ôl i'r GIG rhwng Ebrill a Medi. Rhagwelir yn obeithiol y gall gynlluniau'r flwyddyn gyntaf aildechrau yn 2021 ac mae paratoadau yn mynd rhagddynt. Fodd bynnag, bydd y cynlluniau'n parhau'n hyblyg yn dibynnu ar amgylchiadau a gofynion.

I gael mwy o gyd-destun, amlinellir egwyddorion gwaith deietau arbennig CLILC isod, gyda sail resymegol am eu pwysigrwydd o safbwynt aelodau'r gweithgor rhanbarthol:

1. **Dylai'r gweithdrefnau gael eu harwain gan yr ysgol a dylai'r canllawiau gynnwys y diwrnod ysgol gyfan, o frechwast hyd at 6pm** – Mae anghysondebau o ran rheoli alergeddau ysgafn, anoddefgarwch, clefyd seliag a gofynion crefyddol, diwylliannol, llysiuol a figan ar draws y diwrnod ysgol ac ar draws Cymru. Mae nifer o ysgolion yn gofyn i rieni gysylltu â'u gwasanaeth arlwyio, yn hytrach na chasglu a rhannu gwybodaeth ar lefel ysgol. Byddai dull a arweinir gan yr ysgol, gyda gofynion bwyd arbennig yn cael eu canfod yn ystod cofrestrriad ysgol, a rhannu'r wybodaeth gyda'r gwasanaeth arlwyio, yn caniatáu i ddarpariaethau bwyd arbennig gael eu cynnig ar draws y diwrnod ysgol gyfan.
2. **Disgwylir i ysgolion a gwasanaethau arlwyio wneud trefniadau rhesymol i gynnig darpariaethau bwyd arbennig a datblygu polisiau ac arferion hyblyg ar gyfer ymateb i geisiadau** – Ychydig iawn o ganllawiau cenedlaethol sydd yn bodoli i reoli deietau arbennig mewn ysgolion a gynhelir yn y DU.

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**

**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**

We welcome correspondence in Welsh and English and we will respond in the same language.  
Use of either language will not lead to a delay.

3. **Dylai disgyblion gyda gofynion bwyd arbennig gael cynnig darpariaeth sy'n gyfwerth â'r disgyblion eraill** – Fel arfer bydd ganddynt yr un gofynion maeth.
4. **Dylai darpariaethau bwyd arbennig (ac eithrio deietau am resymau meddygol) gael eu darparu o fewn darpariaeth gyffredinol sy'n cydymffurfio â [Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion \(Gofynion a Safonau Maeth\) \(Cymru\) 2013](#) (*Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion*)** – Nid yw anghenion bwyta ychwanegol ar hyn o bryd yn cael eu cynnwys o dan ddiffiniad deietau am resymau meddygol.

O ran yr ail egwyddor, mae'n bwysig nodi bod LACA (Lloegr) hefyd wedi sefydlu gweithgor i ddatblygu "polisiau a gytunir yn genedlaethol i reoli alergeddau mewn arlwygo mewn addysg". Cefnogodd y *Cydlynnydd Cenedlaethol* y grŵp hwn yn ystod ei sefydliad ym Mai 2019 a darparodd wybodaeth am waith deietau arbennig CLILC. Mae'r *Deietegydd Cenedlaethol* yn awyddus i barhau i rannu arferion da ac yn bwriadu profi 'adnodd asesu risg' LACA ynghyd â chanllawiau CLILC.

Mae gweddill y llythyr hwn yn ymateb i brif themâu'r ddeiseb, gyda chyfeiriad at waith deietau arbennig CLILC.

### **Addysg ar alergeddau bwyd i ddisgyblion**

Mae ymatebwyr blaenorol wedi amlygu dyletswyddau cyfreithiol a osodir ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu mewn perthynas â darparu addysg briodol. Mae CLILC yn cefnogi egwyddorion Cwricwlwm Newydd Cymru a'r cyfleoedd sy'n deillio o hyn ar gyfer penaethiaid a'u cyrrff llywodraethol. Os oes gan ysgolion ddisgyblion gydag alergeddau bwyd difrifol, anoddefiadau bwyd, clefyd coeliag neu ddiabetes math 1, byddai'n arfer da iddynt ddarparu addysg wedi'i gefnogi gan eu hawdurdod lleol ac asiantaethau partner. Yn dibynnu ar gyllid ychwanegol ar gyfer blynyddoedd tri a pedwar y prosiect deietau arbennig, mae'r *Deietegydd Cenedlaethol* yn bwriadu adolygu, datblygu a chyfeirio ysgolion at adnoddau addysgol ar alergeddau bwyd, fel rhan o ddull ysgol gyfan i reoli deietau arbennig.

### **Hyfforddiant Chwistrellwyr Adrenalin Awtomatig (AAI)**

Mae ymatebwyr blaenorol wedi amlygu dyletswyddau cyfreithiol sydd ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu i gynllunio ar gyfer, ac ymateb i sefyllfaoedd argyfwng a darparu hyfforddiant priodol. Mae CLILC yn deall y sail resymegol tu ôl i ymgyrch Allergey UK i wneud AAIs yn orfodol mewn holl ysgolion a gynhelir ac yn cytuno bod angen cyllid ychwanegol i brynu AAIs a hyfforddiant staff cynhwysfawr.

O ran rheoli deietau arbennig mewn ysgolion, mae 'gweithdrefnau' drafft CLILC yn cynnwys wyth cam, yn amrywio o'r cam 'cofrestru' hanfodol i'r cam 'ymateb' sy'n annymunol ac y gellir ei osgoi. Hyd yn hyn, mae trafodaethau gweithgorau rhanbarthol mewn perthynas ag AAI wedi amlygu bod rhai ysgolion yn disgwyl i staff arlwygo'r awdurdod lleol gael eu hyfforddi a bod yn gyfrifol am roi AAIs yn ystod darpariaeth brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd. Nid yw gwasanaethau arlwygo'r awdurdod lleol yn credu bod hyn yn briodol nac yn rhesymol. Mae [Brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd: canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu](#) yn nodi mai'r "penaethiaid sy'n gyfrifol am weinyddu a rheoli eu hysgol o ddydd i ddydd, ac mae hynny'n wir am y sesiwn frecwast." Mae 'rolau a chyfrifoldebau' drafft CLILC yn argymhell bod 'aelod dynodedig o

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**

**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.  
Use of either language will not lead to a delay.

bersonél ysgol' yn gyfrifol am drefnu hyfforddiant a sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd os fydd argyfwng ar draws y diwrnod ysgol gyfan.

### **Addysg ar alergeddau bwyd i staff ysgol**

Mae'r ddeiseb wedi darparu'r *Deietegydd Cenedlaethol* gyda gwybodaeth werthfawr i ddatblygu'r camau 'cynllunio' a 'darparu' ymhellach mewn perthynas â hyfforddiant deietau arbennig. Gall hyn gynnwys datblygu rôl yr 'aelod dynodedig o bersonél ysgol' i gefnogi cyd bersonél ysgol i reoli deietau arbennig ar draws y diwrnod ysgol gyfan. Bydd y rôl hon yn debyg i'r 'cefnogwr alergedd' a argymhellir gan y deisebydd. Yn ail flwyddyn y prosiect deietau arbennig mae'r *Deietegydd Cenedlaethol* yn bwriadu datblygu hyfforddiant deietau arbennig ar gyfer y gwasanaethau arlwygo. Yn ddibynol ar gyllid ychwanegol, bydd hyn yn cael ei ymestyn i bersonél ysgol eraill ym mlynnyddoedd tri a phedwar.

### **Dull ysgol gyfan i reoli alergeddau**

Mae ymatebwyr blaenorol wedi amlygu dyletswyddau cyfreithiol a osodir ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a gwasanaethau arlwygo. Ymateb cychwynol y Gweinidog Addysg i'r ddeiseb hon oedd bod "[ei] swyddogion yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gydag arlwywyr ysgol, yr awdurdodau lleol a deietegwyr, lle trafodir materion o ran alergeddau bwyd yn fanwl" a bod "[Llywodraeth Cymru] hefyd yn newid y *Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion* ac yn adolygu'r [Canllawiau Statudol \[Bwyta'n Iach mewn Ysgolion\]](#) ar gyfer ysgolion". Mae'r *Cydlynnydd Cenedlaethol* a'r *Deietegydd Cenedlaethol* yn trefnu a chadeirio'r cyfarfodydd hyn a byddent yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau ac adolygiadau, yn arbennig o ran rheoli deietau arbennig mewn ysgolion, a gaiff ei lywio gan y prosiect deietau arbennig.

Rhagwelir y bydd [canllawiau cefnogi dysgwyr gydag anghenion gofal iechyd](#) (*Canllawiau Anghenion Gofal Iechyd*) Llywodraeth Cymru yn cael ei ddiweddarau, yn dilyn diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol, a gaiff ei lywio gan y prosiect deietau arbennig. Mae mwyafrif y canllawiau hyn, mewn perthynas â chyfrifoldebau ysgol i wneud trefniadau cefnogi a chasglu a rhannu gwybodaeth gyda budd-ddeiliaid, yn gadarn ac yn unol â'r gweithdrefnau a 'rolau a chyfrifoldebau' drafft. Mae CLILC yn credu gall y *Canllawiau Anghenion Iechyd Gofal* gael eu diwygio'n gadarnhaol gyda: mwy o fanylder a chywirdeb mewn perthynas â'r gweithdrefn gwyno a argymhellir; mwy o fanylder o ran darparu gwybodaeth alergeddau a maeth i rieni a disgyblion; a gwahaniaethau amlwg rhwng y canllawiau statudol a chynghor anstatudol. Mae rhai aelodau o'r gweithgorau rhanbarthol hefyd wedi mynegi anfodlonrwydd am y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer Cynlluniau Iechyd Gofal Unigol, gan awgrymu dylai'r penderfyniad terfynol ar eu gofyniad gael ei wneud gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sy'n darparu gofal i'r disgybl yn hytrach na'r pennaeth.

Wrth adeiladu ar gyfeiriad Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r Cynllun Ysgolion Iach Rhwydwaith Cymru, mae cyfle i'r *Cydlynnydd Cenedlaethol* a'r *Deietegydd Cenedlaethol* lywio'r adolygiad sydd ar y gweill o'r dangosyddion Gwobr Ansawdd Genedlaethol mewn perthynas â Bwyd a Ffitrwydd a Hylendid a Diogelwch. Mae gan y *Cydlynnydd Cenedlaethol* eisoes gysylltiadau agos gyda chydweithwyr Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru mewn perthynas â dull ysgol gyfan i fwyta'n iach mewn ysgolion, a bydd yn cysylltu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru am hyn ar y cyd â'r *Deietegydd Cenedlaethol*.

Mae CLILC yn cytuno gyda barn Allergey UK, bod "mwyafrif o ysgolion yn cymryd eu cyfrifoldeb am iechyd plant yn hynod o ddifrifol", "defnyddir cynlluniau gofal iechyd unigol mewn nifer o ysgolion"

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**

**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**

We welcome correspondence in Welsh and English and we will respond in the same language.  
Use of either language will not lead to a delay.

ac "mae'r camau ymlaen dros y blynyddoedd diweddar o ran deddfwriaeth a chanllawiau statudol angen mynd ymhellach eto i sicrhau bod holl blant sy'n byw gydag alergedd yn ddiogel yn yr ysgol". Mae'r *Deietegydd Cenedlaethol* yn awyddus i gysylltu ag Allergy UK ymhellach, i ddarganfod mwy am eu polisi model 'safon aur' ar gyfer rheoli alergeddau mewn ysgolion a'r rhaglen 'Grŵp Gweithredu Alergedd mewn Ysgolion' mewn ysgolion uwchradd.

Mewn ymateb i bwyntiau penodol a godwyd gan y deisebydd, mae CLILC yn disgwyl i ysgolion fod yn gynhwysol yn ystod gweithgareddau addysgol a hamdden gan gynnwys gweithwyr proffesiynol gofal iechyd priodol a'r rheini wrth baratoi Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol. Os nad yw hyn yn digwydd, gall y deisebydd a rhieni/gofalwyr eraill yn yr un sefyllfa, wneud cais am gopi o bolisi anghenion gofal iechyd yr ysgol a dilyn y weithdrefn gwyno o fewn y polisi.

Mae dull ysgol gyfan a arweinir gan yr ysgol yn hanfodol i waith deietau arbennig CLILC, *Canllawiau Anghenion Gofal Iechyd* Llywodraeth Cymru, Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru a rhaglen 'Grŵp Gweithredu Alergedd mewn Ysgolion' Allergy UK.

### **Monitro gweithrediad polisiau anghenion gofal iechyd ac arferion da**

Mae'r thema hwn o'r ddeiseb yn hanfodol i'r cwestiwn mwyaf os yw polisiau anghenion gofal iechyd yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws y diwrnod ysgol gyfan ar draws Cymru. Er mwyn cynorthwyo i ateb hyn, mae angen archwilio pwy sy'n gyfrifol am sicrhau gweithrediad effeithiol a sut caiff hyn ei fonitro.

Mae *Canllawiau Anghenion Gofal Iechyd* yn nodi bod "rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau bod cynlluniau, trefniadau a gweithdrefnau i gefnogi dysgwyr gydag anghenion gofal iechyd yn eu lle ac yn cael eu gweithredu'n gywir ac yn effeithiol". Un o gyfrifoldebau'r gyrff llywodraethu yw "sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer datblygu, monitro ac adolygu trefniadau anghenion gofal iechyd". Mae gan y pennaeth hefyd gyfrifoldebau o ran hyn, ond mae'n aneglur os yw'r rhain yn statudol neu'n anstatudol o ystyried bod y *Canllawiau Anghenion Gofal Iechyd* ond yn cael eu cyhoeddi fel canllawiau statudol i gyrff llywodraethol ac awdurdodau lleol. Mae cyfrifoldebau penaethiaid yn cynnwys "sicrhau bod yr holl bartïon ynghlwm yn deall y trefniadau sydd yn eu lle i ddiwallu anghenion gofal iechyd y dysgwr, yn gweithredu arnynt, a bod gweithredoedd yn cael eu cynnal" a "darparu adroddiadau blynyddol i'r corff llywodraethu ar effeithiolrwydd y trefniadau sydd yn eu lle i ddiwallu anghenion gofal iechyd y dysgwyr". Mae cyfrifoldebau awdurdodau lleol yn ymwneud yn bennaf gyda "sicrhau bod darpariaeth addysg ar gael i ddysgwyr" a "darparu cymorth, cyngor a chyfarwyddyd, gan gynnwys sut i ddiwallu anghenion hyfforddi staff y lleoliad addysg." Mae'n werth nodi, er eglurder, nad yw'r awdurdodau lleol yn gyfrifol am fonitro gweithrediad effeithiol y *Canllawiau Anghenion Gofal Iechyd* o fewn eu lleoliadau addysg.

Mae rôl Estyn i fonitro gweithrediad polisiau anghenion gofal iechyd ysgolion yn ymwneud yn bennaf â'r agwedd "diogelu" ym maes "gofal, cefnogaeth a chanllawiau" y fframwaith arolygu cyffredin. Mae [Arweiniad atodol: arolygu diogelu mewn ysgolion ac UCDAu](#) yn darparu gwybodaeth ar *Ganllawiau Anghenion Gofal Iechyd* ac yn amlygu bod diogelu yn cynnwys amrywiaeth o faterion, gan gynnwys "trefniadau ar gyfer diwallu anghenion plant gyda chyflyrau meddygol", "iechyd a diogelwch a lles disgyblion" a "recriwtio diogel, goruchwyllo, hyfforddi a rheoli staff". Er nad yw'n cyfeirio'n benodol at ddeietau arbennig, mae gan arolygwyr bwynt cyfeirio os oes pryderon gofal iechyd neu gwestiwn yn codi yn ystod arolygiad.

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**

**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.  
Use of either language will not lead to a delay.

Mae CLILC yn cefnogi'r sicrwydd a roddir gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a'r adborth anecdotaidd a amlygwyd gan Allergey UK mewn perthynas â gweithredu polisi. Rydym wedi trafod y mater hwn gydag aelodau o'r gweithgorau rhanbarthol ac wedi cyflawni adolygiad o bolisiau anghenion gofal iechyd ar lefel ysgol a'r ALI yn ystod haf 209. Roedd rheolwyr arlwygo yn ymwybodol yn gyffredinol o bolisi anghenion gofal iechyd eu hawdurdod lleol ac roedd rhai wedi cyfrannu tuag at ei ddatblygu mewn perthynas â deietau arbennig. Ateggodd cynrychiolwyr o Coeliac UK a Diabetes UK safbwyntiau Allergey UK, gan gydnabod bod rhieni yn cysylltu â'u sefydliadau yn aml pan maent yn wynebu problemau, yn hytrach na chanmol arferion da sy'n digwydd mewn ysgolion. Yn yr adolygiad o bolisiau anghenion gofal iechyd, canfuwyd bod gan bob awdurdod lleol bolisi mewn grym, mewn ffurf canllawiau neu bolisi model. Yn gyffredinol, roedd polisiau ysgol yn cydymffurfio â pholisi'r awdurdod lleol, ond yn llai tebygol o gael eu cyhoeddi ar-lein. Os oedd y polisiau ar gael, roedd dros 95% yn cyfeirio at y term "deietegol" a thros 85% yn cyfeirio at "alergeddau". Mae'r adolygiad hwn yn awgrymu bod anghysondebau o ran gweithrediad, mewn perthynas â (er nad yw'n hanfodol) gofyniad i gyhoeddi polisiau ar-lein, a gall rhai bolisiau gynnig mwy o wybodaeth mewn perthynas ag anghenion deietegol ac alergeddau. Pan fydd y *Dietegydd Cenedlaethol* yn dechrau gweithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol peilot, bydd yn gallu ystyried perthnasedd y polisiau ymhellach, o ran deietau arbennig, a pha mor effeithiol maent yn gweithredu'r rhain.

Cydnabyddir bod yr adolygiad uchod wedi cael ei gyflawni cyn i'r Gweinidog Addysg "ysgrifennu at holl ysgolion a gynhelir i bwysleisio'r gofyniad i ddarllen y canllawiau statudol a gweithredu polisi anghenion gofal iechyd cyn gynted â phosibl". Fodd bynnag, mae'r *Dietegydd Cenedlaethol* yn bwriadu cynnig cymorth i wasanaethau llywodraethu'r awdurdodau lleol ac Estyn mewn perthynas â rheoli deietau arbennig, gyda'r golwg o ddatblygu adnoddau hyfforddi ac astudiaethau achos arfer effeithiol.

## Sylwadau Terfynol

Mae'n bwysig nodi, ac fel y dangoswyd gan brofiadau'r deisebwr o ran rheolaeth alergedd ei blentyn yn yr ysgol, na fydd gwaith CLILC ar ddeietau arbennig yn creu proses gadarn y gellir ei chraffu ar gyfer rheoli holl ddeietau arbennig mewn ysgolion yng Nghymru yn awtomatig. Bydd diweddariadau i'r *Canllawiau Statudol Bwyta'n Iach mewn Ysgolion* a *Chanllawiau Anghenion Gofal Iechyd* yn helpu. Bydd angen ymgysylltiad pellach gyda gwasanaethau addysg yr awdurdodau lleol, tu hwnt i'r gwasanaethau arlwygo, ac ymgysylltiad parhaus gan bartneriaid, er mwyn datblygu ymhellach, cyflwyno, gweithredu a monitro cydymffurfriad gyda'r canllawiau a gytunir yn genedlaethol yn gyson.

Mae'r *Cydlynnydd Cenedlaethol* a'r *Deietegydd Cenedlaethol* yn sensitif i'r ddeiseb hon, a deisebau eraill mae'r Pwyllgor Deisebau wedi mynd i'r afael â nhw, mewn perthynas â bwyd mewn ysgolion, ac yn croesawu cyfatebiaeth bellach gyda'r deisebydd, y Pwyllgor Deisebau a chyd ymatebwyr. Bydd y *Deietegydd Cenedlaethol* hefyd â diddordeb mewn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag adolygu eu dull i alergeddau ac imiwnoleg.

**Yn gywir / Yours sincerely**



**Sharon Davies**

Pennaeth Addysg  
Head of Education

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**

**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**

We welcome correspondence in Welsh and English and we respond to correspondence in the same language.  
Use of either language will not lead to a delay.

**P-05-932 Education On Food Allergies In Schools & Mandatory EPI PEN Training, Correspondence – Petitioner to Committee, 23.11.20**

Firstly, thank you to all that have responded so far regarding our petition. I would like to highlight the recent response from Sharon Davies, how thorough and detailed it was, please know how much I appreciate the time taken to reply in full. I also appreciate every policy in place currently and to the schools that turn to these policies to keep children living with food allergies safe but as well as in every reply I have sent back to the Senedd I highlight that regardless of these policies and complaints procedures no one cares because they don't have to by law, it just falls on if that person can be bothered to take the time to learn and understand allergies especially when they aren't just as straightforward as banning nuts from a classroom and we know this is not an ideal situation there are currently, officially 14 top allergens and we can't always avoid these allergens however if we are educated on how dangerous these allergens are to those allergic what a different world we would live in.

School is where we go to learn so why aren't we learning about how we can look after our friends by not sharing our food even though it's good to be kind but it isn't safe to share our foods with our friends. Why aren't teachers more understanding of our children's life threatening conditions, they don't have to because not one person is checking on them to see if they know what they are doing or if they need more support.

Many schools across Cardiff had epi pen training cancelled due to covid this year so instead were sent a video and that's it, a video but Cardiff Council isn't chasing anyone to check if the staff have watched the video, have they been able to practise with a training pen? Have they been given the opportunity to ask questions about the different ways anaphylaxis can present, no they haven't and I must stress this is not good enough, this same practise that isn't evolving in anyway so how are we as parents meant to trust the level of care our teachers are giving our children if there is no one monitoring this? I can say 'yes I watched the video' but how do you know if I did or not? You don't!

I really support the answers from Sharon and I hope that you can too. She proves more can be done and it's time more is done. Food Allergies come with an abundance of anxiety in a variety of ways and if we can remove the anxiousness parents have when leaving their children in a school setting as well as reassurance for the child knowing that if there was an emergency the school is fully prepared then we are moving in the right direction, if we don't address the issues I have raised and proved time and time again that there needs to be accountability then what becomes of our children that live with food allergies?

I still don't trust my own child's school. I dread every morning I leave him and pray he has a safe day because everytime my phone rings and it's his school I hope there isn't a disaster on the other end because I have no confidence in any of them to save my son's life. That's what it comes down to, SAVING A LIFE.

In response to Vaughan Gething, I have emailed many times and the response to the Senedd is the first regarding support with the petition, unfortunately this reply is very disappointing and poor. Food allergies didn't go away whilst covid came, they were here before the pandemic, during and after they aren't something you can hide in the cupboard when you feel like it. Again it's unfortunate that this response shows no understanding of what I am lobbying for, support services lack for those with allergies regardless and you'd need to create new allergy nurse positions to help aid the lack in service, allergy nurses store incredible knowledge and bare the brunt of all allergy support that families require. But

these services have no bearing on making epi pen training mandatory in schools or on how the welsh government should be aiding schools in support those living with allergic disease.

Imagine the welsh government does nothing just as England has and another child dies in school because of the lack of knowledge or the fact that no one is monitoring the current policies and their standards. Our children, my child, shouldn't have to wait for tragedy to strike again but instead be proud that their country, their government has chosen to better our procedures and training in place to PREVENT tragedy. These are both 2 very different and very important things you as our government need to consider because on your head be it.

As always thank you greatly again,

Charlotte

## Eitem 3.3

**P-05-985 Darparu gofal plant i weithiwr allweddol sy'n cyfateb i'r hyn a oedd ar gael cyn pandemig Covid-19**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Adam Calcutt, ar ôl casglu cyfanswm o 719 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, wedi cyhoeddi y bwriedir ailagor ysgolion ar 29 Mehefin. O ddydd Llun 22 Mehefin, bydd oriau agor ysgolion hyb sy'n darparu gofal plant i blant gweithwyr allweddol yn cael eu lleihau, mewn rhai ardaloedd, o 0800 – 1800 i 0830 – 1600. Bydd hyn yn cosbi gweithwyr allweddol nad ydynt yn gallu cael mynediad at y lefelau o ofal plant a oedd ar gael cyn pandemig Covid-19; ni fydd gweithwyr allweddol yn gallu cyflawni eu horiau gwaith arferol gan arwain at effaith niweidiol ar wasanaethau hanfodol.

### **Gwybodaeth Ychwanegol:**

Ar ôl darparu gwasanaeth gofal i blant gweithwyr allweddol rhwng 8.00 a 18.00, mae methiant Senedd Cymru i ddarparu trefniadau pellach ar gyfer gofal plant o fewn yr oriau hyn, neu o leiaf cyfwerth â'r oriau o ofal a ddarparwyd mewn ysgolion unigol yn union cyn argyfwng Covid-19, yn cosbi gweithwyr allweddol sy'n gweithio'n galed. Heb ymdrech, ymroddiad ac aberth aruthrol y gweithwyr allweddol hyn i gynnal gwasanaethau hanfodol drwy'r pandemig byddai'r effeithiau ar y cyhoedd yn gyffredinol a chenedl falch Cymru wedi arwain at fwy fyth o farwolaethau, caledi arswydus ac amddifadedd o'r fath a fyddai wedi ac a allai achosi goblygiadau difrifol o hyd i'n cenedlaethau i ddod. Dylai mynediad at y lefel o ofal plant a oedd ar gael o'r blaen, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol ar lefel y gost a dalwyd gan rieni cyn Covid-19, fod yn gynnig sylfaenol.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Mynwy
- Dwyrain De Cymru

Julie Morgan AS/MS  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Deputy Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JM/01579/20

Janet Finch-Saunders MS  
Chair  
Petitions Committee

5 November 2020

Dear Janet Finch-Saunders MS,

Thank you for your letter of 30 September regarding Petition P- 05-985 - Provide key-worker childcare equivalent to what was available prior to the Covid-19 pandemic.

We welcome the opportunity to update the Petitions Committee on our plans for the provision of education and childcare including that of key or critical workers in the event of any future lockdowns. We were also interested to hear the petitioner's views on how local authorities should approach future school closures or lockdowns.

Please be assured that keeping schools and childcare settings open remains a key priority for the Welsh Government. This is vital for our young people's education, their overall wellbeing and for parents and carers to work or train.

The transmission rates within schools and childcare settings remains low. Evidence here and indeed worldwide shows that there is no significant relationship between schools reopening and Covid cases in the community. However, coronavirus rates are continuing to rise across Wales and as a Government we are continually reviewing the arrangements in place to manage both infection and transmission. This is critical to ensuring we go through the rest of the autumn and winter without overwhelming our NHS.

We will shortly publish the Coronavirus Control Plan for Education and Childcare Settings. It sets out our expectations for the operation of education and childcare settings at each of the stages in the wider Coronavirus Control Plan for Wales. It is intended to provide education and childcare settings with the information they need to plan for each stage of the response, and to put in place appropriate arrangements to ensure that they continue to meet their statutory duties and responsibilities.

The plan includes advice on the issues to take into account should we need to limit the numbers of children on site, and confirms that schools and childcare settings should look to prioritise the children of critical workers as well as vulnerable children and those who may

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 161

be digitally excluded. The plan also includes information and advice about the definition of vulnerable children and critical workers to help schools and settings with their forward planning. We are keen to reflect the outcome of the current firebreak within the plan and will publish it as soon as we have been able to do that, in partnership with stakeholders.

We hope this information shows the committee and the petitioner that the childcare needs of key/critical workers have been fully considered and taken account of in our plans for any future lockdown situations.

We would also like to update the committee on the current levels of childcare provision available across Wales. Of the 3,548 childcare settings registered with CIW in the week commencing 12<sup>th</sup> October 2020, 3,252 (92%) are currently thought to be open. Given that at one point during the initial lockdown around half of all registered childcare providers had closed as a consequence of the pandemic this is very welcoming. We are extremely proud of the way settings have stepped up to the challenge against a rapidly changing backdrop of advice and guidance, adapting their businesses and staffing arrangements to operate safely. As the petitioner says in their letter wrap around care is essential to enable parents to work and it is encouraging to see how schools and childcare settings have worked in partnerships often in challenging circumstances to ensure that parents and carers can access wrap around and out of school childcare at either end of the school day.

As has been said previously the local authorities have been integral to delivering our Coronavirus Childcare Assistance Scheme (C-CAS). This Welsh Government grant paid via local authorities to registered childcare providers supported over 900 vulnerable children and 9,600 critical workers' children (based on the latest estimates from local authorities between April and August 2020).

An independent review of C-CAS is being undertaken as part of the third annual evaluation of the Childcare Offer. During the evaluation parents and childcare providers will be contacted and asked for their views on both schemes and their use of childcare. Information will also be gathered from local authorities regarding the administration of the scheme and its take-up. We are hoping to publish a full evaluation report early next year.


We are sorry that the petitioner was disappointed in the response by local authorities to summer holiday childcare provision. The £2.6m was split into two separate funds. £1.6m was directed via the Local Authority Emergency Hardship fund to enable local authorities to enhance the childcare and play opportunities for children and young people aged five to sixteen in their areas. The focus was predominately on those children and young people who needed additional support over the summer. Officials are gathering data on the outcome of the scheme and will report on this later in the year. A further £1m was allocated to fund provision for children and young people over the school summer holidays to help them to re-engage with education, giving them the opportunity to take part in activities which they might have missed out on whilst not at school such as socialising with their peers and physical activity. The funding was managed by the Welsh Local Government Association (WLGA) on our behalf and we are expecting a report on how funding was used shortly. Local authorities were given flexibility to use the funding to benefit those who need it most in their areas but, priority was given where it could be demonstrated that funding was targeted on those who have missed out most whilst they were not attending school and there was also a requirement for activity to focus on the needs of vulnerable children in deprived communities.

We know that the pandemic has had and continues to have a profound impact on all our lives. Welsh Government announced last week a £320 million financial package to help

support our priorities and in particular to help support those most adversely affected by the Covid -19 crisis. Of this funding package £3.8 million in revenue funding has been allocated to support the childcare and play sector both in terms of recovery from the impact of Covid-19 and ongoing sustainability. The funding will help ensure that children have access to quality childcare and play provision and that families are supported with their childcare needs, enabling parents to work. £5m in capital funding has also been allocated to help settings meet the costs of adaptations to ensure premises can operate in a Covid-secure manner and for additional investment in play facilities to support access to play opportunities for children adversely impacted by the pandemic.

We hope the information we have provided has been helpful for both the committee and petitioner.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Julie Morgan', written in a cursive style.

**Julie Morgan AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Deputy Minister for Health and Social Services

## Eitem 3.4

### **P-05-1011 Gwersi rhithwir ar-lein dan arweiniad athrawon ar gyfer pob plentyn ysgol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Elfed Williams, ar ôl casglu cyfanswm o 2,772 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae posibilrwydd cryf y bydd yn rhaid parhau i gadw pellter cymdeithasol ar ôl mis Medi pan fydd y flwyddyn ysgol newydd yn dechrau. Ni fydd digon o le yn yr ysgolion i'r holl ddisgyblion ddychwelyd. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol ac undebau athrawon i ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod pob plentyn yn cael yr addysg sydd ei hangen arnynt i wneud cynnydd addysgol. At y diben hwn, bydd angen cyfuniad o wersi yn yr ysgol a gwersi gartref a gaiff eu cyflwyno drwy ddsbarthiadau rhithwir.

#### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Os bydd angen parhau i gadw pellter cymdeithasol ar ôl mis Medi, mae angen i Lywodraeth Cymru ddechrau datblygu strategaeth genedlaethol i addysgu ein plant ac i gynorthwyo'r plant hynny sy'n dilyn y mesurau gwarchod. Mae'n debygol mai dim ond traean o'r plant fydd yn gallu bod yn yr ysgol ar unrhyw un adeg, felly bydd angen cyfuniad o wersi i'w cyflwyno yn yr ysgol a gwersi rhithwir ar-lein i'w cyflwyno drwy Systemau Rheoli Dysgu [shorturl.at/boB24](https://shorturl.at/boB24)

Bydd angen cynorthwyo athrawon, ysgolion ac awdurdodau lleol, a darparu cyllid i dalu am y gost o sefydlu platfformau dysgu, ymdrin â materion diogelu a hefyd i gyflwyno gwersi ar-lein a fydd yn galw am set sgiliau gwahanol i'r arfer. Ni all Llywodraeth Cymru ddiystyru'r broblem hon. Mae gwledydd fel Singapôr a Tsieina yn croesawu'r technolegau hyn oherwydd cyfyngiadau Covid ar ysgolion. Mae angen i Gymru fod ar flaen y gad yn y cyswllt hwn ac arwain y ffordd i sicrhau bod ein plant yn cael yr addysg orau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Clwyd

- Gogledd Cymru

# Eitem 3.5

## **P-05-1015 Dylid categoreiddio ysgolion fel seilwaith hanfodol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Christopher Hughes, ar ôl casglu cyfanswm o 484 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Gyda'r system profi, tracio ac olrhain ar waith a halogi cymunedol yn isel iawn ledled Cymru, ni ddylid cau ysgolion eto yng Nghymru.

Mae hyn yn hanfodol ar gyfer lles meddwl ac addysg plant, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael eu diogelu.

### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Os yw unrhyw ysgol yn gorfod cau oherwydd ymlediad coronafeirws sylweddol, rhaid iddynt allu cynnal pob gwers ar-lein yn fyw drwy gynllun addysg wrth gefn. At hynny, rhaid iddynt hefyd sicrhau bod pob plentyn yn bresennol yn y sesiwn gofrestru a'r gwersi, gan fynd ar drywydd unrhyw absenoldeb yn yr un ffordd ag y gwneir hynny yn yr ysgol er mwyn sicrhau diogelwch plant a pharhad addysg.

Rhaid i'r dull addysgu hwn ond parhau am gyfnod mor fyr â phosibl cyn i bob plentyn orfod mynychu'r ysgol yn ôl yr arfer.

Dylai ysgolion arbennig ar gyfer plant ADY yn cynnwys plant anabl beidio â chau, a dylent fod â chynllun wrth gefn i allu parhau ar agor hyd yn oed yn ystod cyfnodau clo lleol.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Clwyd
- Gogledd Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-1011 & P-05-1015  
Ein cyf/Our ref KW/05834/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau  
Deisebau@Senedd.Cymru

Annwyl Janet,

5 Tachwedd 2020

Diolch am eich llythyr a'r ymholiadau ychwanegol a gododd yn dilyn eich cyfarfod pwyllgor. Gadewch imi eich sicrhau fy mod yn cytuno'n llwyr bod yr ysgol yn hanfodol ar gyfer lles a dyfodol ein plant. Cytunaf hefyd bod yr ysgol yn ffactor pwysig o ran caniatáu i deuluoedd weithio a chynnal yr economi. Rhain, mewn gwirionedd, yw'r rhesymau dros benderfyniad y Llywodraeth i sicrhau y bydd ysgolion ar agor i'r rhan fwyaf o grwpiau blynyddoedd ysgol yn ystod y cyfnod atal byr sydd ar ddod.

**Parthed: Y pwysigrwydd i bob plentyn barhau i gael addysg drwy wersi rhyngweithiol ar-lein os oes rhaid iddyn nhw hunanynysu neu os bydd cyfyngiadau pellach**

Rwy'n deall y pryderon a godwyd gan rieni a dysgwyr ar y mater hwn. Rwyf wedi dweud yn glir y dylai plant a phobl ifanc fedru dysgu wrth hunanynysu. Cyhoeddwyd canllawiau dysgu gennym ym mis Gorffennaf, a oedd yn pwysleisio'r angen i hyrwyddo dysgu ym mhob sefyllfa weithredol, gan gynnwys canolbwyntio ar ddysgu cyfunol.

Mae'r penderfyniadau ar sut mae ysgolion yn mynd ati i gynnig dysgu cyfunol, megis gwersi 'byw' neu wedi'u recordio, yn cael eu gwneud ar lefel ysgol. Disgwyliwn i ysgolion, fel rhan o'u hasesiad risg ar gyfer tymor yr hydref, ddatblygu cynllun sy'n nodi sut, beth a phryd y byddant yn cyflawni os bydd unrhyw amharu ar addysgu a gweithrediadau arferol, er enghraifft os bydd angen i garfannau hunanynysu. Yn benodol, dylai hyn gynnwys:

- Darparu dulliau addysgu ac asesu o ansawdd uchel i hyrwyddo dilyniant o ddechrau tymor yr hydref
- Sicrhau dulliau dysgu cyfunol sy'n berthnasol ym mhob sefyllfa i wella'r cynnig addysgu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- c. Gweithredu dulliau addysgeg hyblyg i sicrhau nad yw dysgwyr yn colli allan os ydynt i ffwrdd o'r ysgol am gyfnod.

Mae'n polisi [Cadw'n Ddiogel, Dal Ati i Ddysgu](#) yn nodi sut y dylai'r system addysg yng Nghymru gefnogi dysgu o bell, er mwyn lliniaru effaith peidio â bod yn bresennol yn gorfforol mewn ysgolion ar lawer o'n dysgwyr a sicrhau parhad dysgu. Mae Cymru mewn sefyllfa dda i gefnogi ysgolion, ymarferwyr a dysgwyr wrth ddysgu o bell ar-lein, gan fod gennym ein platfform digidol cenedlaethol, Hwb. Ar ben hynny, rydym wedi helpu awdurdodau lleol ac ysgolion ledled Cymru i drefnu cymorth i ddysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau clir i ysgolion ac awdurdodau lleol ar ddarparu dysgu o bell a hefyd ar ddefnyddio gwersi wedi'u recordio ymlaen neu eu ffrydio'n fyw.

Mae ardal bwrpasol ar Hwb <https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/> yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i ddysgu o bell. Cynhyrchwyd canllawiau gan Estyn a'n consortia rhanbarthol mewn perthynas â dysgu cyfunol, gydag amrywiaeth o gymorth i ysgolion.

Ar hyn o bryd rydym yn cynhyrchu adnoddau i helpu i ddatblygu sgiliau cynllunio dysgu ymarferwyr er mwyn cefnogi cyfleoedd dysgu gwell ar gyfer y dyfodol (hynny yw, gwell cyfleoedd dysgu cyfunol ac ar-lein). Gwyddom fod galw sylweddol wedi bod gan athrawon am hyfforddiant a chymorth i ymgymryd â dysgu cyfunol, ac rydym yn croesawu ymrwymiad ysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i wneud cynnydd.

### **Parthed: Effaith negyddol bod allan o'r ysgol ar nifer o blant, yn arbennig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol**

Rwy'n cydnabod bod yr ansicrwydd sy'n deillio o'r pandemig coronafeirws yn arbennig o heriol i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), eu teuluoedd a'r rhai sy'n eu cefnogi ac yn gofalu amdanynt. Rwyf wedi ymrwymo i wneud popeth posibl i gefnogi'r dysgwyr, y rhieni a'r gofalywyr hyn yn ystod y cyfnod anodd hwn.

O ystyried yr heriau y mae pob dysgwr wedi'u hwynebu dros y misoedd diwethaf, ac o gydnabod bod yr effaith hon wedi bod yn sylweddol, rwyf wedi cyhoeddi [canllawiau](#) atodol ar gyfer tymor yr hydref, yn canolbwyntio ar anghenion ymarferol, emosiynol a dysgu plant agored i niwed a difreintiedig, gan gynnwys y rhai ag ADY. Cyhoeddwyd y canllawiau hyn ynghyd â [chanllawiau gweithredol](#) ar gyfer ysgolion a chanllawiau ar [gyfer dysgu mewn ysgolion](#).

Mae'r Canllawiau Gweithredol yn nodi, er nad yw'n bosibl sicrhau amgylchedd cwbl ddi-risg mewn lleoliadau addysgol, fod yn rhaid cydbwysu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn ofalus gydag effeithiau negyddol ar iechyd dysgwyr o beidio bod yn yr ysgol. Gall bod allan o'r ysgol fod yn niweidiol i ddatblygiad gwybyddol ac academaidd plant a'u hiechyd a'u lles, a allai gael effaith yn y tymor byr a'r tymor hwy.

Bu'n ofynnol i bob ysgol gynnal asesiad risg llawn a gweithredu mesurau rheoli synhwyrol a chymesur i leihau'r risgiau i bawb o COVID-19. Dylai ysgolion sicrhau nad yw unrhyw fesurau a roddir ar waith yn cael effaith negyddol ar les dysgwyr.

Ni fu unrhyw addasiadau i ddyletswyddau statudol awdurdodau lleol mewn perthynas ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Cymru yw'r unig wlad yn y DU i beidio addasu'r dyletswyddau hyn o ganlyniad i'r pandemig presennol. Mae dyletswyddau awdurdodau lleol sy'n deillio o Ddeddf Addysg 1996 a Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002 yn parhau mewn grym, ac mae Cod Ymarfer AAA Cymru 2002 yn dal yn gymwys. Mae'r Cod yn canolbwyntio ar ddileu rhwystrau rhag cyfranogi a dysgu. Mae'n rhoi cyngor ymarferol i awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, lleoliadau blynyddoedd cynnar ac eraill ar gyflawni eu dyletswyddau statudol i nodi, asesu a darparu ar gyfer dysgwyr AAA.

